

**ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) Drafft**

**15 Mawrth 2021**

## 1. Crynodeb

1. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gwblhau ar gyfer y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) drafft ('y Bil drafft').
2. Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil drafft yn ei gyfanrwydd a'r bwriad yw cyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).
3. i. Byddai darpariaethau'r Bil drafft yn arwain at gostau gweinyddol, cydymffurfio a chostau eraill gros blynyddol o £12,009,600. Byddai'r rhain yn arwain at gostau trosiannol o £167,990. Dros gyfnod yr adolygiad deddfwriaethol pum mlynedd, byddai hyn yn costio cyfanswm o £60,048,000. £31,223,000 yw costau gweinyddol, cydymffurfio a chostau eraill net darpariaethau'r Bil drafft dros bum mlynedd.

### Costau blynyddol

	Lefel sylfaen	Opsiwn a Ffefrir
CPG	424,000	404,000
Dyletswydd PG	0	192,900
Caffael	5,341,000*	11,412,700**
Is-gyfanswm	5,765,000	12,009,600
Dros bum mlynedd	x5	x5
Cyfanswm	28,825,000	60,048,000

\*Sef dim ond y costau staff presennol ar gyfer Masnachol a Chaffael

\*\*Yn cynnwys costau staff Masnachol a Chaffael gan nad ysgwyddir y rhain o ganlyniad i'r Bil drafft

Costau trosiannol (fesul eitem)	
Hyfforddiant CPG (par 54)	3,790
Ymgyfarwyddo â'r ddyletswydd PG (par 110)	2,100
Costau'r rhaglen gaffael	82,000
Ymwybyddiaeth/hyfforddiant caffael	80,100
Dros 1 flwyddyn	x1
Cyfanswm	167,990

Cost gros = 60,048,000 + 167,990 = 60,215,990

Cost net = 60,048,000 – 28,825,000 = 31,223,000

3. ii. Dyma fanteision y Bil drafft na ellir eu mesur yn ariannol:

- byddai Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol i gryfhau a hyrwyddo cysondeb mewn gwaith partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Byddai'n rhan o system o bartneriaeth gymdeithasol a sefydlwyd drwy'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Byddai'n gallu casglu gwybodaeth o haenau eraill o bartneriaeth gymdeithasol mewn ffordd systematig er mwyn llywio ei drafodaethau a gwella ansawdd y cyngor i Weinidogion;
- byddai cyflwyno dyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn cryfhau'r camau a gymerir gan gyrff cyhoeddus i gyfrannu at saith nod llesiant Cymru ac yn cefnogi cyflawni uchelgeisiau gwaith teg Llywodraeth Cymru a'r argymhellion a nodir yn *Gwaith Teg Cymru*. Byddai'r darpariaethau'n sicrhau bod system o bartneriaeth gymdeithasol strategol o'u gweithredu ar y cyd â darpariaethau eraill yn y Bil drafft;
- byddai cyflwyno dyletswyddau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn hoelio sylw cyrff cyhoeddus ar gyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol drwy gynnwys cymalau perthnasol mewn contractau, trosglwyddo'r rhain drwy gadwyni cyflenwi a rhoi prosesau ar waith i fonitro'r trefniadau hyn drwy gadwyni cyflenwi ac adrodd ar ganlyniadau.

## 2. Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

4. Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi a'u hystyried:

**Opsiwn 1:** Gwneud dim – parhau i gynnal mecanweithiau deialog gymdeithasol presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant yn eu ffurfiau presennol.

**Opsiwn 2:** Sicrhau gwell cydlyniad strategol ym mecanweithiau deialog gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant drwy greu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol sy'n cynnwys cyflogwyr ac undebau llafur o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Byddai gan CPG statudol, oherwydd ei statws, ddilysrwydd o ran arweinyddiaeth systemau, er mwyn cysylltu a hyrwyddo cysondeb mewn partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

Tabl: crynodeb o'r costau a amcangyfrifir ar gyfer y ddau opsiwn o ran sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol

	£	
	Opsiwn 1 – gwneud dim	Opsiwn 2 – CPG statudol
Costau trosiannol	-	3,790
Costau rhedeg blynyddol (yn seiliedig ar gostau staff cyfredol)	424,000	404,000
Cyfanswm costau dros 5 mlynedd	2,120,000	2,038,950
Cost net dros 5 mlynedd		-81,050

### Opsiwn 1: Gwneud dim

#### Disgrifiad

- Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau i ddibynnu ar strwythurau presennol i reoli deialog gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant.
- Byddai deialog gymdeithasol gyda chyflogwyr yn y sector preifat ac undebau llafur yn parhau drwy'r Cyngor Datblygu Economaidd (CfED) a'r Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol (SPSG).
- Byddai deialog gymdeithasol gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac undebau llafur yn parhau drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC) a'i Gyd-bwyllgor Gweithredol (JEC).

8. Gallai deialog gymdeithasol strategol ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector barhau drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol anstatudol sy'n defnyddio aelodaeth WPC a CfED fel ei graidd ac sydd hefyd yn cynnwys y Comisiynwyr statudol fel aelodau ychwanegol<sup>1</sup>.
9. Ni fyddai angen unrhyw newid deddfwriaethol o dan yr opsiwn hwn.
10. Ni fyddai'r opsiwn "gwneud dim" yn ystyried argymhelliad y Comisiwn Gwaith Teg i ddeddfu i sefydlu mecanwaith partneriaeth gymdeithasol statudol.

### **Costau – 'gwneud dim'**

11. Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o gyfanswm y costau a ysgwyddir wrth weithredu'r mecanweithiau deialog gymdeithasol Gweinidogol cenedlaethol presennol. **£424,000** yw'r amcangyfrif o gostau rhedeg blynyddol cynnal y system bresennol.

### **Costau'r Cyngor Datblygu Economaidd (CfED) a'r Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol (SPSG)**

#### **Costau rhedeg**

12. Ar hyn o bryd, Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y CfED. Mae dau aelod o staff Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyfarfodydd y CfED, fel rhan o'u rolau ehangach yn yr Is-adran Polisi Economaidd. Cyflogir un ar Raddfa 7 ac mae un arall yn cael ei gyflogi ar lefel Uwch Swyddog Gweithredol (SEO). Mae'r aelod staff Gradd 7 yn treulio wyth diwrnod gwaith yn cefnogi pob cyfarfod. Mae'r aelod staff SEO yn treulio tua saith diwrnod ar bob cyfarfod. Mae'r CfED yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn.
13. Darparodd yr un staff hefyd yr ysgrifenyddiaeth i'r SPSG. Tan fis Mehefin 2019, roedd y grŵp yn cwrdd ddeg gwaith y flwyddyn. Cymerodd pob cyfarfod bum diwrnod gwaith yr un i'r swyddog Gradd 7 a'r SEO eu trefnu.
14. Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau staff cyfartalog bandiau cyflog staff sifil nad ydynt yn staff uwch yn 2019/20. Mae'r rhain yn cynnwys argostau cyflogaeth (pensiynau, yswiriant gwladol, ac ati).

---

<sup>1</sup> Y Comisiynwyr Plant a Phobl Ifanc, Cenedlaethau'r Dyfodol, Pobl Hŷn, yr Iaith Gymraeg a chynrychiolaeth o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Tabl – cyfrifo amcangyfrif o gost cyfle staff Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'r CfED a'r SPSG

Gradd	Costau staff blynyddol (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau y flwyddyn a dreulir ar CFED ac SPSG	Cost y flwyddyn (£)
Gradd 7	80,887	368	(8x3) + (5x10) = 74	27,232
SEO	62,678	285	(7x3) + (5x10) = 71	20,235
<b>Cyfanswm</b>				<b>47,467</b>

15. Amcangyfrifir mai cost rhedeg cyfarfodydd y CfED, wedi'i mynegi fel cost cyfle, yw **£47,500**.

Costau cyfle i'r rhai sy'n bresennol

Tabl: Cyfrifo'r amcangyfrif o gostau cyfle ar gyfer un cyfarfod dwy awr o'r CfED<sup>2</sup>

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Prif Weinidog	91 <sup>3</sup> x 1 x 2	182
Dau Weinidog	65 <sup>4</sup> x 2 x 2	260
15 o uwch randdeiliaid o fyd busnes ac undebau	23 <sup>5</sup> x 15 x 2	690
Chwe uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru	23 <sup>6</sup> x 6 x 2	276
<b>Cyfanswm</b>		<b>1,408</b>

<sup>2</sup> Yn seiliedig ar bresenoldeb yn y tri chyfarfod diwethaf y mae nodiadau arnynt ar gael ar-lein

<sup>3</sup> Bwrdd Taliadau Senedd Cymru, [Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau: 2020-2021](#)

<sup>4</sup> Fel yr uchod

<sup>5</sup> Defnyddio ffigurau ASHE yr ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr cyfarwyddwyr a rheolwyr corfforaethol fel procsi. Caiff undebau eu cynrychioli gan uwch swyddogion undeb amser llawn [Earnings and hours worked, occupation by four-digit SOC: ASHE Table 14](#)

<sup>6</sup> Fel yr uchod

16. Mae'r CfED yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, felly y gost cyfle flynyddol yw  $1,408 \times 2 = \text{£}2,816$ .

Tabl: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle ar gyfer un cyfarfod dwy awr o'r Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Prif Weinidog	$91^7 \times 1 \times 2$	182
Pedwar o uwch randdeiliaid o fyd busnes ac undebau	$23^8 \times 4 \times 2$	184
Tri uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru	$23^9 \times 3 \times 2$	138
<b>Cyfanswm</b>		<b>504</b>

17. Tan fis Mehefin 2019, roedd yr SPSG yn cwrdd ddeg gwaith y flwyddyn. Felly, yr amcangyfrif o gostau cyfle heb argostau cyflogaeth yw  $504 \times 10 = \text{£}5,040$

18. Gyda'i gilydd, amcangyfrifir mai costau cyfle blynyddol y CfED a'r SPSG yw  $2,816 + 5,040 = 7,856 + (7,856 \times 30 \text{ y cant}) = \text{£}10,200$  (i'r cant agosaf). Mae 30 y cant yn cael ei ychwanegu at y gost er mwyn adlewyrchu argostau staff llawn sy'n cynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol.

### Costau Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC) a'i Gyd-bwyllgor Gweithredol

Costau rhedeg a chymorth ymchwil

19. Mae'r WPC fel arfer yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae ei Gyd-bwyllgor Gweithredol (JEC) yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn. Mae gan y WPC gyd-ystrifenyddiaeth amser llawn bwrpasol o bedwar person (un ar Raddfa 6 a thri yn SEO). Ariennir eu gwaith gan Lywodraeth Cymru.

<sup>7</sup> Defnyddio ffigurau ASHE yr ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr prif weithredwr fel procsi. [Earnings and hours worked, occupation by four-digit SOC: ASHE Table 14](#)

<sup>8</sup> Fel cyfeirnod 20 uchod

<sup>9</sup> Fel yr uchod

Tabl - dadansoddiad o gostau cyd-ysgrifenyddiaeth y WPC

Gradd	Cyferth ag amser cyflawn	Cost y flwyddyn (£)
Gradd 6	1	99,223
SEO	3	(62,678 x 3) = 188,034
<b>CYFANSWM</b>		<b>287,257</b>

20. Wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf, gan gynnwys argostau cyflogaeth, **£287,300<sup>10</sup>** yw cost gweinyddu'r WPC.

Costau cyfle

21. Mae mynychu'r WPC a'r JEC yn cynrychioli cost cyfle i'r rheini sy'n bresennol.

Tabl: Cyfrifo'r amcangyfrif o'r gost cyfle i aelodau'r WPC ym mhob cyfarfod

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Deg uwch swyddog undeb llafur amser llawn	23 <sup>11</sup> x 10 x 2	460
Deg uwch gynrychiolydd cyflogwyr sector cyhoeddus (lefel cyfarwyddwr)	23 <sup>12</sup> x 10 x 2	460
Deg uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru	23 <sup>13</sup> x 10 x 2	460
Dirprwy Weinidog	55 <sup>14</sup> x 1 x 2	110
<b>Cyfanswm</b>		<b>1,458</b>

<sup>10</sup> Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau gros cyfartalog bandiau cyflog staff sifil nad ydynt yn staff uwch 2019/20. Mae hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol (pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol, etc).

<sup>11</sup> Defnyddio ffigurau'r ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr cyfarwyddwyr a rheolwyr corfforaethol fel procsi.

<sup>12</sup> Fel yr uchod.

<sup>13</sup> Fel yr uchod.

<sup>14</sup> Bwrdd Taliadau Senedd Cymru, [Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau: 2020-2021](#)



22. Cynhelir y WPC ddwywaith y flwyddyn, felly yr amcangyfrif o gost cyfle amser aelodau yw  $1,458 \times 2 = \text{£}2,916$ .

Tabl: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle i aelodau fynychu cyd-bwyllgor gweithredol (JEC) y WPC

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Tri uwch swyddog undeb llafur amser llawn	$23^{15} \times 3 \times 2$	138
Tri uwch gynrychiolydd cyflogwyr o'r sector cyhoeddus (lefel cyfarwyddwr)	$23^{16} \times 3 \times 2$	138
Tri uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru	$23^{17} \times 3 \times 2$	138
Cyfanswm		414

23. Cynhelir y JEC chwe gwaith y flwyddyn, felly yr amcangyfrif o gost cyfle amser aelodau yw  $414 \times 6 = \text{£}2,484$ .

24. Felly, cyfanswm yr amcangyfrif o gost cyfle blynyddol y WPC a'i gyfarfod JEC yw  $(2,916 + 2,484) + (2,916 + 2,484 \times 30\%) = 7,020$ . Mae ail ran yr hafaliad hwn yn cyfrif am argostau cyflogaeth (pensiwn, yswiriant gwladol, etc). Wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf, mae hyn yn **£7,000**

Costau gweithredu'r canllawiau sy'n deillio o'r WPC presennol

25. Ers ei sefydlu, mae'r WPC wedi cynhyrchu nifer o ddogfennau canllaw sy'n ymwneud â gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yma, rydym yn darparu rhai enghreifftiau dangosol o'r costau a ysgwyddir gan ddetholiad o gyrff cyhoeddus wrth weithredu dogfen Partneriaeth a Rheoli Newid y WPC.

26. Mae Partneriaeth a Rheoli Newid<sup>18</sup> yn gytundeb gan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu y cytunwyd arno'n wreiddiol a'i gyhoeddi yn 2012. Mae'n darparu proses y cytunwyd arni ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru ynghylch sut y

<sup>15</sup> Defnyddio ffigurau'r ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr cyfarwyddwyr a rheolwyr corfforaethol fel procsi.

<sup>16</sup> Fel yr uchod

<sup>17</sup> Fel yr uchod

<sup>18</sup> Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, [Cytundeb Cyngor Partneriaeth y Gweithlu: Partneriaeth a Rheoli Newid](#)

dylent ymgynghori ag undebau llafur wrth gychwyn unrhyw newidiadau neu welliannau i wasanaethau cyhoeddus. Mae'n mynd y tu hwnt i ymgynghori ar newid yn unig ac mae'n annog ac yn disgwyl deialog gynnar ar syniadau a chynigion i sicrhau bod yr holl faterion yn cael eu hystyried gan yr holl bartneriaid.

27. Prif ofyniad y cytundeb yw bod sefydliadau a'u rheolwyr yn ymgynghori ag undebau llafur ymlaen llaw pan fyddant yn dechrau newid a gwella. Roedd llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnal cyfarfodydd o'r fath cyn i'r canllawiau gael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, roedd y cytundeb yn ceisio cryfhau ac ymestyn hyn fel darpariaeth gyffredinol ar sail egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y ddwy ochr.

28. Mae'r amcangyfrif o gostau cyfle eitem hanner awr ychwanegol ar yr agenda mewn cyfarfod rhwng rheolwyr ac undebau mewn corff sector cyhoeddus yn cael ei gyfrifo isod. Dangosol yw'r cyfrifiad ac mae wedi'i gyfyngu i'r byrddau iechyd lleol a llywodraeth leol sef y ddau grŵp mwyaf o gyrff cyhoeddus datganoledig sydd â nifer sylweddol o staff. Oherwydd bod cynrychiolwyr undebau llafur yn gallu bod ar unrhyw raddfa ar draws sefydliad, mae'n anodd asesu costau eu cyfranogiad. Er mwyn deall y terfynau uchaf, mae'r costau tebygol wedi cael eu cyfateb i uwch swyddog adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol.

Tabl: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle 30 munud ychwanegol ar agenda cyfarfodydd rhwng rheolwyr ac undebau llafur mewn llywodraeth leol a chyrrff iechyd

Rôl y person	Nifer	Cyfradd yr awr (£)	Cyfnod amser (oriau)	Is-gyfanswm (£)
<i>Ochr y cyflogwr</i>				
Rheolwr corfforaethol <sup>19</sup>	3	23	0.5	35
<i>Ochr yr Undebau Llafur</i>				
Swyddog lleyg <sup>20</sup>	3	14	0.5	21
Is-gyfanswm				56
Argostau cyflogaeth (30%)				17
<b>CYFANSWM</b>				<b>73</b>

<sup>19</sup> Defnyddio categori rheolwyr corfforaethol ASHE

<sup>20</sup> Defnyddio categori 'swyddog adnoddau dynol neu gysylltiadau diwydiannol' ASHE fel procsi

29. Os ydym yn tybio bod 10 cyfarfod o'r fath yn digwydd yn flynyddol mewn 22 o awdurdodau lleol a 7 o fyrddau iechyd lleol, yna'r amcangyfrif o gost cyfle, wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf, o drafod newidiadau mawr mewn cyfarfodydd rhwng rheolwyr ac undebau yw  $73 \times 10 \times 29 = \text{£}21,200$  i'r cant agosaf.

#### Costau adrodd

30. Cyrff cyhoeddus datganoledig a chyd-ysgrifenyddiaeth y WPC sy'n gyfrifol am adrodd ar gostau gweithredu canllawiau a chytundebau'r WPC a'u staff nhw sy'n gyfrifol am adrodd a chasglu data sy'n ymwneud â gweithredu canllawiau a chytundebau'r WPC.

31. Sefydlwyd ysgrifenyddiaeth y WPC gyda'r bwriad penodol o gefnogi gwaith o'r fath. Ni ellir ei ystyried yn gost cyfle ychwanegol gan ei fod yn un o swyddogaethau craidd yr ysgrifenyddiaeth. Mae eisoes yn cael ei gyfrifo o fewn costau ysgrifenyddiaeth y WPC y cyfeirir ati uchod.

#### **Costau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol**

##### Costau rhedeg a chymorth ymchwil

32. Ers ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Mawrth 2020, mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol wedi cyfarfod unwaith bob pythefnos, mewn ymateb i'r pandemig. Mae'n cael ei gefnogi gan gyd-ysgrifenyddiaeth y WPC, ac mae'r costau wedi cael eu hamlinellu uchod eisoes.

##### Costau cyfle

33. Mae mynychu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol yn cynrychioli cost cyfle i'r rheini sy'n bresennol.

Tabl: Cyfrifo'r amcangyfrif o'r gost cyfle i aelodau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol ym mhob cyfarfod

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Deg uwch swyddog undeb llafur amser llawn	$23^{21} \times 10 \times 2$	460
Deg uwch gynrychiolydd cyflogwyr (lefel cyfarwyddwr)	$23^{22} \times 10 \times 2$	460
Deg uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru	$23^{23} \times 10 \times 2$	460
Tri Gweinidog	$65^{24} \times 3 \times 2$	390
Pedwar Comisiynydd	$23^{25} \times 4 \times 2$	184
<b>Cyfanswm</b>		<b>1,954</b>

34. O dan ei amserlen bresennol, cynhelir y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol tua ugain gwaith y flwyddyn, felly yr amcangyfrif o gost cyfle amser aelodau yw  $1,954 \times 20 = \text{£}39,080$ .

35. Felly, cyfanswm yr amcangyfrif o gost cyfle blynyddol y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol yw  $(39,080) + (39,080 \times 30\%) = 50,804$ . Mae ail ran yr hafaliad hwn yn cyfrif am argostau cyflogaeth (pensiwn, yswiriant gwladol, etc). Wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf, mae hyn yn **£50,800**

Manteision – 'gwneud dim'

36. Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r sefyllfa bresennol, ac o ganlyniad mae unrhyw fanteision ychwanegol yn gyfyngedig.

<sup>21</sup> Defnyddio ffigurau'r ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr cyfarwyddwyr a rheolwyr corfforaethol fel procsi.

<sup>22</sup> Fel yr uchod

<sup>23</sup> Fel yr uchod

<sup>24</sup> Bwrdd Taliadau Senedd Cymru, [Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau: 2020-2021](#)

<sup>25</sup> Defnyddio ffigurau'r ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr cyfarwyddwyr a rheolwyr corfforaethol fel procsi.

## Opsiwn 2: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Statudol (CPG)

### Disgrifiad

37. O dan opsiwn dau, byddai Gweinidogion Cymru yn creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol i ddarparu cyngor ynghylch:
- Y ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a chanllawiau cysylltiedig
  - Y nod gwaith teg a'r ddyletswydd gysylltiedig
38. Byddai gan y CPG gyfrifoldeb i gynnwys partneriaid cymdeithasol yn y gwaith o ddatblygu cyngor ffurfiol i Weinidogion ar faterion sy'n ymwneud â gwella gwasanaethau cyhoeddus; lles cymdeithasol ac economaidd a gwaith teg. Byddai'r CPG hefyd yn ystyried adroddiadau ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol ac amcanion gwaith teg.
39. Câi'r CPG ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth a byddai'n gallu defnyddio arbenigedd ehangach Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gapasiti i baratoi cyngor sy'n gadarn, yn awdurdodol, wedi'i gostio, wedi'i werthuso ar gyfer risg ac wedi'i asesu'n llawn o ran ei effeithiau posibl.
40. Byddai cyngor gan y CPG yn ymwneud â phwerau a swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y bartneriaeth gymdeithasol newydd, caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol a dyletswydd gwaith teg;
41. Un o swyddogaethau'r CPG fyddai adolygu Adroddiad Caffael Blynyddol troswaol Llywodraeth Cymru er mwyn nodi a/neu gytuno ar argymhellion ar gyfer ymyriadau polisi ar sail ei ganfyddiadau. Byddai'n ofynnol yn ôl statud i'r CPG sefydlu is-grŵp caffael er mwyn rheoli'r gwaith hwn.
42. Byddai'r CPG yn cael adroddiadau monitro mewn perthynas â'r ddyletswydd caffael, gwaith teg a'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a byddai'n ceisio canfod materion drwy eithriad i'w hystyried.
43. Byddai'r CPG yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol i gryfhau ac ymestyn y gwaith o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru. Byddai'n rhan o system o bartneriaeth gymdeithasol sy'n gallu casglu gwybodaeth mewn ffordd systematig er mwyn llywio ei drafodaethau a gwella ansawdd y cyngor i Weinidogion;
44. Byddai aelodau'r CPG yn cael eu penodi gan y Prif Weinidog drwy enwebiadau gan strwythurau cynrychioliadol, fel y'u diffinnir yn y cylch gorchwyl.

## Is-grwpiau

45. Byddai gan y CPG y pŵer i ffurfio is-grwpiau i gynorthwyo gyda'i waith. Ac eithrio'r Is-grŵp Caffael arfaethedig, ni fyddai'r rhain yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth. Byddai pob is-grŵp yn cael ei gadeirio gan aelod o'r CPG.
46. Byddai un o'r is-grwpiau'n gyfrifol am fonitro'r ddyletswydd caffael. Byddai'r is-grŵp yn darparu adroddiadau i'r GPG ei hun – yn enwedig lle canfuwyd nad oedd cyrff cyhoeddus yn bodloni disgwyliadau polisi caffael. Byddai darpariaethau'n cael eu gwneud i swyddogion Llywodraeth Cymru gysylltu â'r CPG drwy ei is-grŵp caffael mewn perthynas ag ymchwiliadau unigol os yw corff cyhoeddus wedi penderfynu peidio â chynnwys cymalau contract cymdeithasol gyfrifol mewn contract mawr sy'n cael ei reoleiddio, a byddai hefyd yn debygol o fynnu ei fod yn ymgynghori â'r CPG mewn perthynas â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.
47. Mae'n bosibl symleiddio'r strwythurau presennol a sicrhau arbedion effeithlonrwydd os bydd Gweinidogion, yn dilyn adolygiad, yn penderfynu cydgrynhoi gwaith y Cyngor Datblygu Economaidd a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu ac ail-sefydlu'r strwythurau hyn fel is-bwyllgorau o'r CPG.

## Costau - Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol

### Costau trosiannol

### Ymgynghori

48. Fel y nodwyd dan Opsiwn 2, mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol yn cael ei ddefnyddio i ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch y newidiadau arfaethedig. Mae costau gweinyddol trefnu'r cyfarfodydd hyn yn perthyn i Gyfarwyddiaeth Gwaith Teg a Phartneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru a'r Ysgrifenyddiaeth. Mae'r CPG hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus. Mae'r CfED yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn mewn perthynas â'r sector preifat. Felly, nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn ymwneud ag ymgynghori, ond nid yw'r costau llawn sy'n ymwneud â'r cynllun ymgysylltu ar eu gwedd derfynol eto.

### Costau cychwyn

49. Fel y nodwyd o dan Opsiwn 2, mae'r costau cychwyn yn annhebygol o fod yn sylweddol gan fod ysgrifenyddiaeth eisoes yn gwasanaethu'r CPG a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol ac ni ragwelir y byddai'r baich gwaith gweinyddol o ran trefnu cyfarfodydd o'r CPG newydd yn sylweddol uwch.

## Costau hyfforddi

50. Byddai angen hyfforddiant a sesiynau cynefino ar aelodau'r CPG er mwyn eu cyflwyno i'w rolau newydd. Gallai hyfforddiant perthnasol gynnwys:
- gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol;
  - cynhyrchu cyngor trylwyr wedi'i gostio i Weinidogion, gan gynnwys materion llywodraethu;
  - polisi ac ymarfer caffael – gan gynnwys y profiad o ddarparu nwyddau a gwasanaethau wedi'u caffael i awdurdodau cyhoeddus;
  - gwella gwasanaethau cyhoeddus.
51. Byddai'r hyfforddiant a'r cynefino'n cael eu darparu mewn partneriaeth gymdeithasol. Y brif gost sy'n gysylltiedig â'r sesiynau hyfforddi a chynefino fyddai cost cyfle i aelodau'r CPG a'r bobl sy'n darparu'r hyfforddiant.
52. Er mwyn defnyddio amser yn effeithlon, rhagwelir y bydd sesiynau hyfforddi'n cael eu cynnal ar yr un diwrnodau ag y mae'r CPG yn cwrdd. Bydd y rhain yn cynnwys un sesiwn gynefino tair awr o hyd a hyd at dair sesiwn awr ychwanegol yn ôl yr angen.

Tabl: Cyfrifo costau cyfle'r sesiynau hyfforddi hyn ar gyfer aelodau'r CPG

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Naw uwch swyddog undeb llafur amser llawn	23 <sup>26</sup> x 9 x 3	621
Naw cynrychiolydd cyflogwyr (lefel uwch reolwr)	23 <sup>27</sup> x 9 x 3	621
Hyfforddwr (un diwrnod paratoi a hanner diwrnod cyflwyno)	(cyfradd ddyddiol o £1450)	2175
Is-gyfanswm		3,417
Argostau cyflogaeth (30%)		373
<b>CYFANSWM</b>		<b>3,790</b>

<sup>26</sup> Defnyddio ffigurau'r ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr cyfarwyddwyr a rheolwyr corfforaethol fel procsi.

<sup>27</sup> Fel yr uchod

53. Wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf, byddai costau hyfforddi a fynegir fel cost cyfle yn **£3,790**.

54. Byddai costau gweinyddu'r hyfforddiant yn cael eu talu gan ysgrifenyddiaeth y CPG.

#### Costau rhedeg

55. Byddai'r CPG yn dod i 'gyflwr sefydlog' ar ôl deunaw mis i ddwy flynedd. Bydd y CPG yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Bil gael ei wneud yn gyfraith. Disgwylir iddo gyrraedd cyflwr sefydlog yn gyflym oherwydd ei fod – ar y cyfan – yn ymgymryd â chynnal mecanweithiau sy'n bodoli'n barod.

#### Cyffredinol a Gweinyddol

56. Amcangyfrifir y bydd costau blynyddol rhedeg y CPG yn **£404,000**. Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi'r manylion. :

Tabl: Costau cyfle dangosol cyfarfod dwy awr i aelodau.

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Naw uwch swyddog undeb llafur amser llawn	$23^{28} \times 9 \times 2$	414
Naw cynrychiolydd cyflogwyr (lefel uwch reolwr)	$23^{29} \times 9 \times 2$	414
Naw o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru (y Prif Weinidog a hyd at wyth o Weinidogion neu uwch swyddogion eraill – lefel cyfarwyddwr, rhagdybir y Prif Weinidog, dau Weinidog Cymru a chwe uwch swyddog)	$65^{30} \times 3 \times 2$ $23^{31} \times 6 \times 2$	390 276

<sup>28</sup> Defnyddio ffigurau'r ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr cyfarwyddwyr a rheolwyr corfforaethol fel procsi.

<sup>29</sup> Fel yr uchod

<sup>30</sup> Bwrdd Taliadau Senedd Cymru, [Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau: 2020-2021](#)

<sup>31</sup> Fel yr uchod



Is-gyfanswm		1,494
Argostau cyflogaeth (30%)		448
<b>Cyfanswm</b>		<b>1,942</b>

57. Gan y rhagwelir y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal dair gwaith y flwyddyn, amcangyfrifir mai'r gost cyfle yw  $1,942 \times 3 = \text{£}5,826$  sydd, o'i dalgrynnu i'r cant agosaf, yn **£5,900**.

Tabl: Cyfrifo'r costau cyfle a amcangyfrifir ar gyfer rhedeg is-grŵp

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Naw uwch swyddog i bob is-grŵp	$23^{32} \times 9 \times 2$	414
Argostau cyflogaeth (30%)		124
<b>Cyfanswm</b>		<b>538</b>

58. At y diben hwn, tybir y byddai is-grwpiau'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn ac y byddai tri ohonynt. Felly, yr amcangyfrif o'u cost cyfle yw:  $538 \times 3 \times 3 = \text{£}4,842$  neu wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf **£4,800**.

#### Adeiladau

59. Dim costau ychwanegol yn debygol – ystâd Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ddigonol fel y mae ar hyn o bryd.

#### TG

60. Nid ydym yn rhagweld costau TG ychwanegol, gan fod y rhain eisoes yn cael eu talu o fewn technoleg bresennol Llywodraeth Cymru. Does dim angen caledwedd na meddalwedd newydd.

#### Staff

61. Rhagwelwn y byddai'r staff presennol yn ddigon i ymdopi â swyddogaeth yr ysgrifenyddiaeth o dan Opsiwn 2 fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Partneriaeth

<sup>32</sup> Defnyddio ffigurau'r ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr cyfarwyddwyr a rheolwyr corfforaethol fel procsi.

Gymdeithasol a Gwaith Teg ehangach. Fel y nodwyd uchod, amcangyfrifir y byddai costau staff y WPC yn **£287,300** y flwyddyn.

62. Ni ragwelir y byddai angen capasiti ychwanegol ar bartneriaid cymdeithasol, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi ei rwymo i'r trefniadau presennol, er mwyn ymateb i'r trefniadau newydd. Bwriad y polisi yw symleiddio'r mecanweithiau presennol lle bynnag y bo modd a gallai'r costau cyfle y mae partneriaid yn eu talu ar hyn o bryd o ran staff yn mynychu cyfarfodydd hefyd leihau o ganlyniad.

## Costau canllawiau ar faterion Gweinidogion

### Cynhyrchu canllawiau

63. Byddai'r gost o gynhyrchu canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru sy'n deillio o gyngor y CPG yn cael ei thalu o gyllidebau adrannau Llywodraeth Cymru.

64. Byddai pob eitem o gyngor i Weinidogion yn cael ei chostio, fel rhan o drefn gadarn sy'n adlewyrchu prosesau presennol y gwasanaeth sifil ar gyfer asesu cynigion polisi.

65. Byddai costau cyfle o ran cynhyrchu'r cyngor hwn i Weinidogion. At ddibenion enghreifftiol, rydym yn darparu amcangyfrif o'r costau wrth roi cyngor ar fater syml a chyngor ar fater cymhleth.

Tabl: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle cynhyrchu cyngor i Weinidogion ar fater syml

Aelod staff a gradd	Cyflogau blynyddol (£)	Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)	Diwrnodau	Is-gyfanswm (£)
Cyfarwyddwr – cadarnhau'n derfynol <sup>33</sup>	134,534	612	x 0.5	306
Gwasanaethau cyfreithiol – Gradd 7	80,887	368	x 1	368
Arweinydd Polisi - HEO	48,655	221	x 5	1,105

<sup>33</sup> Gan ddefnyddio cyfradd fesul awr yr ONS ar gyfer prif weithredwyr ac uwch swyddogion fel procsi

<b>CYFANSWM</b>				<b>1,800</b> (i'r cant agosaf)
-----------------	--	--	--	--------------------------------

DS. Mae'r costau hyn eisoes yn cynnwys argostau cyflogaeth.

Tabl: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle cynhyrchu cyngor i Weinidogion ar fater cymhleth

<b>Aelod staff a gradd</b>	<b>Cyflogau blynyddol (£)</b>	<b>Cyfradd ddyddiol (£) (rhannwyd â 220)</b>	<b>Diwrnodau</b>	<b>Is-gyfanswm (£)</b>
Cyfarwyddwr – cadarnhau'n derfynol <sup>34</sup>	134,534	612	1	612
Gwasanaethau cyfreithiol – Gradd 7	80,887	368	2	736
Un arweinydd polisi – Gradd 7	80,887	368	10	3,680
Arweinydd Polisi - HEO	48,655	221	5	1,105
<b>CYFANSWM</b>				<b>6,100</b> (i'r cant agosaf)

DS. Mae'r costau hyn eisoes yn cynnwys argostau cyflogaeth.

66. At y diben hwn, tybir y byddai'r CPG yn cynhyrchu un eitem o gyngor i Weinidogion ar fater cymhleth mewn blwyddyn a dwy eitem ar faterion syml. Felly, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol o gynhyrchu cyngor o'r fath fyddai  $(1,800 \times 2) + 6,900 = \text{£}8,700$ .

Rhoi canllawiau ar waith – y sector cyhoeddus

67. Byddai'r gost o weithredu'r canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion o ganlyniad i gyngor a ddarparwyd gan y CPG yn disgyn ar gyrff datganoledig yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

<sup>34</sup> Gan ddefnyddio cyfradd fesul awr yr ONS ar gyfer prif weithredwyr ac uwch swyddogion fel procsi

68. Mae'r costau presennol o roi'r canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu ar waith yn cael eu hystyried uchod o dan Opsiwn 1.
69. Mae'r costau cyfredol o ran gweithredu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy bartneriaeth gymdeithasol yn disgyn ar gyfarfodydd rhwng rheolwyr ac undebau mewn cyrff cyhoeddus. Byddai hyn yn parhau i fod yn wir o dan Opsiwn 2.
70. Byddai gweithredu'r canllawiau o dan Opsiwn 2, a'r gofyniad cysylltiedig i gyrrff cyhoeddus weithredu'n unol â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus perthnasol neilltuo swm cymesur o adnoddau ychwanegol er mwyn llwyddo yn y ffordd hon o weithio.
71. Rydym yn disgwyl y byddai pob corff cyhoeddus perthnasol yn gofyn i aelodau eu cyfarfodydd rhwng rheolwyr ac undebau llafur neilltuo amser i gefnogi gweithredu. Byddai hyn yn wahanol i bob swyddog ond gallai olygu'r amser sydd ei angen i gytuno ar gamau priodol ar y cyd a chyflawni hyn yn lleol yn unol â'r canllawiau. Er enghraifft, gellid disgwyl i bob swyddog dreulio dwy awr ychwanegol yn cefnogi'r gweithredu. Mae'r gost cyfle yn cael ei hamcangyfrif isod:

Tabl: Cyfrifo amcangyfrif o gost cyfle 2 awr ychwanegol a dreulir yn gweithredu'r canllawiau mewn llywodraeth leol a chyrrff iechyd

Rôl y person	Nifer	Cyfradd yr awr (£)	Cyfnod amser (oriau)	Is-gyfanswm (£)
<i>Ochr y cyflogwr</i>				
Rheolwr corfforaethol <sup>35</sup>	3 x	23.92 x	2 =	144
<i>Ochr yr Undebau Llafur</i>				
Swyddogion undeb lleig <sup>36</sup>	3	14 x	2 =	84
<b>Is-gyfanswm</b>				<b>228</b>

72. Os ydym yn tybio bod 10 cyfarfod o'r fath yn digwydd yn flynyddol mewn 22 o awdurdodau lleol a 7 o fyrddau iechyd lleol, yna'r amcangyfrif o'r gost cyfle flynyddol, wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf, o waith paratoi ychwanegol i

<sup>35</sup> Defnyddio categori 'rheolwr corfforaethol' ASHE

<sup>36</sup> Defnyddio categori 'swyddog adnoddau dynol neu gysylltiadau diwydiannol' ASHE fel procsi

gefnogi gweithredu yn deillio o ganllawiau CPG newydd yw  $228 \times 10 \times 29 =$  **£66,100** i'r cant agosaf.

Rhoi canllawiau ar waith – y sector preifat

73. Byddai'r gost o weithredu'r canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion o ganlyniad i gyngor a ddarparwyd gan y CPG yn disgyn ar y sector preifat yng Nghymru. Byddai hyn ar sail wirfoddol yn unig.
74. Ni fyddai'r Bil drafft ei hun yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau a fyddai'n rhwymo'r sector preifat.
75. Os bydd cyflogwyr yn y sector preifat yn dewis gweithredu canllawiau gwirfoddol a gyhoeddir gan Weinidogion, mae'n debygol y byddent yn gofyn i aelodau o'u cyfarfodydd rhwng rheolwyr ac undebau llafur i neilltuo amser i gefnogi'r broses o'u rhoi ar waith. Byddai hyn yn wahanol i bob cyfranogwr ond gallai olygu'r amser sydd ei angen i gytuno ar gamau priodol ar y cyd a chyflawni hyn yn lleol yn unol â'r canllawiau. Oherwydd bod cynrychiolwyr undebau llafur yn gallu bod ar unrhyw raddfa ar draws sefydliad, mae'n anodd asesu costau cyfartalog. Er mwyn deall y terfynau uchaf, mae'r costau tebygol wedi cael eu cyfateb i uwch swyddog adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol. Er enghraifft, gellid disgwyl i bob swyddog dreulio dwy awr ychwanegol yn cefnogi'r gweithredu. Mae'r gost cyfle yn cael ei hamcangyfrif isod:

Tabl: Cyfrifo'r amcangyfrif o gost cyfle dwy awr ychwanegol o roi canllawiau ar waith mewn cwmni preifat o ganlyniad i ganllawiau newydd o dan reoliadau presennol sy'n deillio o gyngor gan y CPG i Weinidogion

Rôl y person	Nifer	Cyfradd yr awr (£)	Cyfnod amser (oriau)	Is-gyfanswm (£)
Ochr y cyflogwr				
Rheolwr corfforaethol <sup>37</sup>	3 x	23 x	2 =	138
Ochr yr Undebau Llafur				
Swyddog undeb lleyg <sup>38</sup>	2	14 x	3 =	84
<b>Is-gyfanswm</b>				<b>222</b>

<sup>37</sup> Defnyddio categori 'rheolwr corfforaethol' ASHE

<sup>38</sup> Defnyddio categori 'swyddog adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol' ASHE fel procsi ar gyfer swyddog undeb llafur lleyg

76. Felly, amcangyfrifir mai **£300** yw'r gost cyfle i gwmni yn y sector preifat (gan gynnwys 30% o argostau cyflogaeth a'u talgrynnu i'r cant agosaf) o roi canllawiau newydd ar waith sydd wedi'u seilio ar reoliadau presennol. Nid yw'n bosibl amcangyfrif faint o gwmnïau fyddai'n gwirfoddoli i weithredu fel hyn. Mae'n bosibl amcangyfrif ystod o gostau fel a ganlyn. Pe bai 100 o gwmnïau'n mynd ati i wneud hyn, amcangyfrifir y byddai'r gost yn **£30,000**.

#### Costau Cydymffurfio ac Adrodd

Rheoli ac adrodd ar fonitro yn bennaf drwy'r system partneriaeth gymdeithasol a'r cyngor partneriaeth gymdeithasol

77. Byddai disgwyl i gyfarfodydd rhwng rheolwyr ac undebau o fewn pob corff cyhoeddus ystyried i ba raddau y mae eu sefydliad yn bodloni telerau'r canllawiau gan Weinidogion Cymru. Mae cost cyfle y gweithgaredd hwn wedi'i nodi uchod. Os yw'r rheolwyr neu'r undebau llafur ar lefel leol yn credu nad oes cydymffurfio â chanllawiau, gellid uwchgyfeirio materion i'w hystyried ar lefel sector (lle mae strwythurau partneriaeth gymdeithasol seiliedig ar sector yn bodoli) ac, os yw'r mater yn dal heb ei ddatrys, i'r CPG drwy gynrychiolwyr priodol.

78. Byddai'r gwaith o weithredu'r canllawiau'n cael ei fonitro'n rheolaidd pan fydd hyn yn cael ei ddiffinio mewn unrhyw ganllawiau a byddai adroddiadau eithrio'n cael eu paratoi gan ysgrifenyddiaeth y CPG (disgrifir costau'r ysgrifenyddiaeth uchod).

#### **Asesu effeithiolrwydd cyrff cyhoeddus mewn perthynas â phartneriaethau cymdeithasol gan ddefnyddio mecanweithiau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

79. Byddai mecanweithiau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu defnyddio i hybu cydymffurfio gan gyrff cyhoeddus, i weithredu'n unol â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.

80. Gallai'r mecanweithiau hyn hefyd chwarae eu rhan yn y gwaith o reoli diffyg cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau Gweinidogol a ddeilliodd o waith y CPG. Mae'n debygol y byddai'r canllawiau hyn yn ymwneud â gwella gwasanaethau cyhoeddus, llesiant cymdeithasol ac economaidd, partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg. Felly, mewn ystyr eang, gellid defnyddio mecanweithiau'r Ddeddf i fonitro llwyddiant polisïau a chanllawiau yn y maes hwn.

81. Disgrifir y mecanweithiau penodol a chânt eu costio ym mharagraffau 383 – 396 y Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf<sup>39</sup>. Mae'r mecanweithiau'n adrodd ar y dangosyddion cenedlaethol a'r dyletswyddau datblygu cynaliadwy, sef, yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:
- Gosod a chyflawni amcanion sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
  - Cyhoeddi datganiad yn egluro sut a pham y byddent yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant yn yr hyn maent yn ei wneud, gan gynnwys pryd y disgwylir i gamau gweithredu o'r fath gael eu cymryd;
  - Adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y mae'r corff wedi'i wneud o ran cyflawni amcanion llesiant. (par 384)
82. Gan fod y mecanweithiau hyn eisoes ar waith, ac nad oes disgwyl y byddai'r ddyletswydd CPG a PG yn achosi gwaith ychwanegol sylweddol yn y maes hwn, ni fyddai casglu'r wybodaeth hon yn arwain at gost ychwanegol sylweddol i gyrff cyhoeddus. Ar ben hynny, pan gyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dangosai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf nad oedd y dyletswyddau hyn yn achosi cost ychwanegol sylweddol ar y pryd, oherwydd bod disgwyl eisoes i gyrff cyhoeddus gasglu gwybodaeth o'r fath.

#### Monitro adroddiadau caffael blynyddol

83. Mae'r costau monitro ac adrodd ar gyfer adroddiadau caffael blynyddol yn cael eu hamcangyfrif yn yr adran o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n delio â chaffael.

#### Adrodd ar effeithiolrwydd y CPG ei hun.

84. Byddai gofyn i'r CPG adrodd ar ei effeithiolrwydd ei hun. Byddai cost cyfle ynghlwm wrth y gweithgaredd hwn i aelodau'r CPG.
85. Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi datblygu adnodd hunanasesu a chanllawiau ar gyfer byrddau<sup>40</sup>. Pe bai'r CPG yn mabwysiadu'r model hwn, byddai'n cynnwys pedwar cam:

---

<sup>39</sup> Llywodraeth Cymru, [Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol](#)

<sup>40</sup> Datblygwyd Canllawiau ac Adnodd Hunanasesu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2019 gan Grŵp Cynghori a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chyfarwyddwyr Cynllunio'r GIG.

- i. Paratoi (cytuno ar gwmpas, amseru a briffio aelodau)
- ii. Cwblhau'r adnodd hunanasesu yn unigol a dadansoddi'r ymatebion
- iii. Gweithdy wedi'i hwyluso a chynllunio gweithredu
- iv. Gwerthuso'r broses.

86. Byddai cost cyfle i aelodau wrth gymryd rhan yn y gwerthusiad. O ran cam i (paratoi), gallai fod yn ddigon i'r mater gael ei drafod yn fyr mewn cyfarfod o'r CPG ei hun. Ni ddylai cwblhau'r adnodd hunanasesu (cam ii) gymryd mwy na hanner awr yr un, sy'n gost fach iawn. Mae cost cyfle wrth gymryd rhan mewn gweithdy a hwylusir (cam iii). Rhagwelir y bydd hyn yn cymryd hanner diwrnod.

Tabl: Cyfrifo amcangyfrif o'r gost cyfle i'r CPG wrth gymryd rhan mewn gweithdy wedi'i hwyluso

Nifer a math o gyfranogwr	Cyflog gros yr awr (£) x cyfranogwyr x oriau	Is-gyfanswm (£)
Tri uwch swyddog undeb llafur amser llawn	23 <sup>41</sup> x 3 x 3	207
Tri chynrychiolydd o'r sector busnes (lefel uwch reolwr)	23 <sup>42</sup> x 3 x 3	207
Tri uwch gynrychiolydd cyflogwyr o'r sector cyhoeddus (lefel cyfarwyddwr)	23 <sup>43</sup> x 3 x 3	207
Hwylusydd		400
Is-gyfanswm		1,021
Argostau cyflogaeth (30%)		186
<b>CYFANSWM</b>		<b>1,207</b>

87. Ysgrifenyddiaeth y CPG fyddai'n gyfrifol am y gwaith o baratoi'r adnodd hunanasesu, dadansoddi'r ymatebion, a threfnu'r gweithdy. Rhoddir cyfrif am yr amser staff hwn eisoes yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

<sup>41</sup> Defnyddio ffigurau'r ONS am gyflog gros cyfartalog canolrifol yr awr cyfarwyddwyr a rheolwyr corfforaethol fel procsi.

<sup>42</sup> Fel yr uchod

<sup>43</sup> Fel yr uchod



88. Amcangyfrifir y bydd cyflogi hwylusydd annibynnol am hanner diwrnod yn costio oddeutu £400<sup>44</sup>.

89. Felly, cyfanswm cost proses hunanasesu yw **£1,200**, wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf. Rhagwelir y byddai un hunanasesiad yn digwydd bob blwyddyn.

.....

90. Ôl-nodyn: Costau staff Llywodraeth Cymru wedi'u darparu o'i dogfen 'Costau Cyflogau Cyfartalog'

.....

### 3. Sefydlu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol

91. Dyletswydd ar y cyrff cyhoeddus uchod i ymgynghori â'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth gyflawni swyddogaethau penodol fel y disgrifir uchod yw'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Mae'r Bil drafft yn nodi bod rhaid i gyrff cyhoeddus sydd o fewn y cwmpas wneud y canlynol, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol bosibl, wrth ymgynghori:

- a. Dechrau'r ymgynghoriad yn ystod cam ffurfiannol y broses o bennu amcanion a gwneud penderfyniadau;
- b. Anelu at gyfaddawd a chydsyniad.

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

**Opsiwn 1:** Gwneud dim

**Opsiwn 2:** Defnyddio'r pwerau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Opsiwn 3:** Sefydlu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol statudol.

---

<sup>44</sup> Mae'r Fframwaith Caffael Cenedlaethol Dysgu a Datblygu (Cymru) yn dweud bod costau hwyluso rhwng £795:00 a £1295:00 y diwrnod, gan ddibynnu ar yr arbenigedd pwnc sydd ei angen.

Tabl: crynodeb o'r costau a amcangyfrifir ar gyfer y tri opsiwn o ran sefydlu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol

£

	<b>Opsiwn 1 – gwneud dim</b>	<b>Opsiwn 2 – defnyddio cyfreithiau cyfredol</b>	<b>Opsiwn 3 – dyletswydd statudol newydd**</b>
Costau trosiannol	-	2,100	2,100
Costau rhedeg blynyddol	0	192,900	192,900
Cyfanswm costau dros 5 mlynedd	0	966,600	966,600
Cost net dros 5 mlynedd	-	966,600	966,600

\*Mae'r costau hyn yn seiliedig ar y costau ar gyfer Opsiwn 3, sydd wedi'u rhestru fesul eitem isod

\*\* Mae'r costau hyn wedi'u rhestru fesul eitem isod

### **Opsiwn 1 – Gwneud dim**

Disgrifiad

92. Ni fyddai unrhyw newid deddfwriaethol o dan yr opsiwn hwn. Byddai partneriaeth gymdeithasol yn parhau i weithredu o fewn y fframweithiau a'r strwythurau presennol i reoli deialog gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

93. Byddai deialog gymdeithasol ar lefel strategol gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac undebau llafur yn parhau drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC) a'i Gyd-bwyllgor Gweithredol (JEC).

### **Costau**

94. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae'n bosibl y bydd costau cyfle'n gysylltiedig â pheidio â sicrhau cysondeb â'r uchelgeisiau gwaith teg drwy bartneriaeth gymdeithasol, neu anghysondeb rhwng dulliau gweithredu gwahanol ddarparwyd gwasanaethau cyhoeddus.

### **Manteision**

95. Ni fyddai'r trefniadau sy'n bodoli nawr yn newid; felly nid oes disgwyl y bydd unrhyw fanteision bwriadol ychwanegol.

### **Crynodeb**

96. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn partneriaeth gymdeithasol drwy ymgysylltu ag undebau llafur wrth arfer

swyddogaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er bod partneriaeth gymdeithasol anstatudol wedi arwain at lawer o enghreifftiau o gynnydd cadarnhaol, mae diffyg cysondeb mewn dulliau gweithredu o hyd ac nid yw'r gweithrediad yn gyffredinol, ac felly mae cyfleoedd wedi'u colli o ganlyniad.

97. Ni fyddai angen unrhyw newid deddfwriaethol o dan yr opsiwn hwn.

98. Nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni amcanion Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, 'Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, sy'n nodi cynigion ar gyfer deddfwriaeth i greu trefniadau partneriaeth gymdeithasol statudol yng Nghymru gyda darpariaethau cysylltiedig sy'n creu fframwaith ar gyfer sbarduno cydraddoldeb cymdeithasol, gan adeiladu ar yr egwyddorion partneriaeth a chydweithio.

## **Opsiwn 2 – Defnyddio deddfwriaeth gyfredol i gyflawni'r newidiadau, yn bennaf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

### **Disgrifiad**

99. Mae Adran 14 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi canllawiau i gyrrff cyhoeddus ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, ac yn mynnu bod y cyrff cyhoeddus hynny'n talu sylw i'r canllawiau hyn. Mae Adran 51 yn cynnwys gofynion union debyg mewn cysylltiad â'r swyddogaethau o dan Ran 4.

100. Gellid datblygu canllawiau i nodi y dylai cyrff cyhoeddus, wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf, yn enwedig wrth bennu neu gymryd camau i gyflawni nodau llesiant, ymgysylltu ag undebau llafur mewn partneriaeth gymdeithasol.

### **Costau**

101. Byddai'r costau yn eithaf tebyg i rai Opsiwn 3, o ystyried:

- a. mae'r canllawiau'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn adrodd yn yr un ffordd ag y byddent o dan Opsiwn 3;
- b. byddai gweithredu'r canllawiau gan gyrrff cyhoeddus yn cael effaith debyg i'r goblygiadau cost ar gyfer partneriaeth gymdeithasol fel y disgrifir o dan Opsiwn 3;
- c. byddai'r gost i Lywodraeth Cymru o ddatblygu canllawiau yn debyg i'r gost o dan y Bil drafft ac sy'n cael ei disgrifio o dan Opsiwn 3;
- d. mae'r costau ymgyfarwyddo i gyrrff cyhoeddus ar gyfer deall unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn debygol o fod yr un fath ag o dan Opsiwn 3.

## Manteision

102. Byddai'r manteision yn cryfhau ac yn adeiladu ar y ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Crynodeb

103. Ni fyddai'r cynigion yn cyflawni'r nod o integreiddio trefniadau lleol mewn system partneriaeth gymdeithasol ar wahân sy'n cael ei llwybro i Gyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn gwireddu uchelgeisiau gwaith teg cyffredin a chenedlaethol. Byddai disgwyl i'r costau fod yn debyg i'r rhai a nodir o dan Opsiwn 3. Ni fyddai'r mesurau canllaw yn sicrhau y byddai system yn cael ei gweithredu'n gyffredinol.

## Opsiwn 3 – Sefydlu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol (opsiwn a ffefrir) Disgrifiad

104. Byddai'r opsiwn hwn yn creu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol i ymgynghori ag undebau llafur cydnabyddedig wrth arfer swyddogaethau penodol, ac felly'n darparu ar gyfer system partneriaeth gymdeithasol gyson sy'n cyfrannu at y nod cyffredinol o wella gwasanaethau cyhoeddus a lles economaidd a chymdeithasol Cymru. Byddai pŵer hefyd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y gofyniad i ymgynghori ag undebau llafur cydnabyddedig. Byddai'n cryfhau ac yn cefnogi system partneriaeth gymdeithasol sy'n adlewyrchu ac yn parhau'r trefniadau presennol hirsefydlog, ac yn creu fframwaith ar gyfer datblygu partneriaeth gymdeithasol gryfach lle nad yw'r model wedi'i sefydlu i'r un graddau. Yn ei dro, byddai hyn yn helpu i hybu uchelgeisiau gwaith teg Llywodraeth Cymru a phartneriaid strategol, ac yn atgyfnerthu rôl cyrff cyhoeddus yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru.
105. Mae'r cynigion yn cynnwys dyletswyddau gwaith teg ychwanegol i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:
- cyhoeddi adroddiad blynyddol ar amcanion gwaith teg;
  - pennu a chyhoeddi amcanion gwaith teg;
  - rhoi mesurau rhesymol ar waith i hyrwyddo amcanion gwaith teg.

## Manteision

106. O dan y model hwn, byddai'r ddeddfwriaeth yn darparu sylfaen ar gyfer cyflawni'r nodau llesiant ac uchelgeisiau gwaith teg Llywodraeth Cymru, a gweithredu ar yr argymhellion a nodir yn *Gwaith Teg Cymru*. Byddai'r

darpariaethau'n sicrhau bod system partneriaeth gymdeithasol strategol o'u gweithredu ar y cyd â darpariaethau eraill yn y Bil drafft.

## Costau

107. Costau trosiannol yr opsiwn hwn yw £2,100 (ymgyfarwyddo). Costau blynyddol yr opsiwn hwn yw £192,900. Mae rhagor o fanylion yn y paragraffau isod:

## Costau i Lywodraeth Cymru

108. Ar ôl gweithredu, ystyrir mai dyma fydd y costau rheolaidd uniongyrchol i Lywodraeth Cymru:

- (a) ystyried adroddiadau blynyddol gan bob un o'r 44 corff cyhoeddus, a dadansoddi;
- (b) cyhoeddi canllawiau ar bartneriaeth gymdeithasol o bosibl.

109. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil drafft sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

110. Bydd y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn effeithio ar sut mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswydd llesiant ac ar sut caiff yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a sefydlwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), ei rhoi ar waith. Nid oes bwriad i wneud y canlynol:

- a. Newid cwmpas y ddyletswydd archwilio ar Archwilydd Cyffredinol Cymru (A.15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) i asesu i ba raddau y mae corff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant, ac felly ni fwriedir i'r Bil drafft arwain at oblygiadau ariannol i Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- b. Newid cwmpas y ddyletswydd ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion llesiant a bennwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni, ac felly ni fwriedir i'r Bil drafft arwain at oblygiadau ariannol i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

111. Byddai disgwyl i gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiad blynyddol i Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol ar weithrediad y bartneriaeth gymdeithasol dros y flwyddyn gyfan. Byddai costau'n codi i Lywodraeth Cymru ar gyfer prosesu a dadansoddi'r adroddiadau i'w hystyried gan Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol. Ystyrir mai dyma fydd y rhain:

<b>Gradd</b>	<b>Cyflog blynyddol gydag argostau<sup>45</sup> (£)</b>	<b>Cyfradd ddyddiol (rhannwyd â 220)</b>	<b>Cost flynyddol</b>
Dirprwy Gyfarwyddwr – 2 ddiwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	114,241	519	1,038
Gradd 7 – 5 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	80,887	368	1,840
HEO – 10 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	48,655	221	2,210
EO – 15 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	37,775	172	2,580
<b>Cyfanswm</b>			<b>7,668</b>

Wedi'i thalgrynnu i'r cant agosaf, amcangyfrifir mai £7,700 fyddai'r gost.

Cyhoeddi canllawiau ar bartneriaeth gymdeithasol o bosibl

112. Mae'n annhebygol y bydd canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi'n aml. Ni fydd canllawiau newydd neu ganllawiau wedi'u diweddarau o reidrwydd yn cael eu cyhoeddi mewn ymateb i bob cylch adrodd blynyddol. Felly, mae'r dadansoddiad yn dangos cost bosibl datblygu un darn o ganllawiau statudol.

<b>Gradd</b>	<b>Cyflog blynyddol gydag argostau<sup>46</sup> (£)</b>	<b>Costau fesul diwrnod fesul blwyddyn (rhannwyd â 220)</b>	<b>Cost flynyddol</b>
Dirprwy Gyfarwyddwr – 5 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	114,241	519	2,595
Gradd 7 – 15 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	80,887	368	5,520

<sup>45</sup> Cyflogau 2020 Llywodraeth Cymru

<sup>46</sup> Cyflogau 2020 Llywodraeth Cymru

HEO – 20 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	48,655	221	4,420
EO – 25 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	37,775	172	4,300
<b>Cyfanswm</b>			<b>16,835</b>

Wedi'i thalgrynnu i'r cant agosaf, amcangyfrifir mai £16,800 fyddai'r gost

Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar amcanion gwaith teg

113. Mae'r amcangyfrif o'r costau'n seiliedig ar yr amserlenni tebygol ar gyfer paratoi adroddiad. Nid yw'r amcanion gwaith teg wedi'u pennu eto ac felly mae tybiaethau sylfaenol wedi'u gwneud ynglŷn â'r adnoddau a ddyrennir. Wrth i amser fynd heibio, mae'n debygol y bydd rhagor o amcanion i adrodd arnynt yn cael eu hychwanegu, gan gynyddu'r costau o bosibl, ond byddai hefyd llinell sylfaen i adrodd yn ei herbyn, a fyddai'n cynyddu effeithlonrwydd y broses adrodd.
114. Hefyd byddai angen ystyried y goblygiadau o ran adrodd a'r costau cysylltiedig wrth bennu a chyhoeddi amcan gwaith teg.

<b>Gradd</b>	<b>Cyflog blynyddol gydag argostau<sup>47</sup> (£)</b>	<b>Costau fesul diwrnod fesul blwyddyn (rhannwyd â 220)</b>	<b>Cost flynyddol</b>
Dirprwy Gyfarwyddwr – 5 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	114,241	519	2,595
Gradd 7 – 15 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	80,887	368	5,520
HEO – 20 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	48,655	221	4,420
EO – 25 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	37,775	172	4,300
<b>Cyfanswm</b>			<b>16,835</b>

Wedi'i thalgrynnu i'r cant agosaf, amcangyfrifir mai £16,800 fyddai'r gost

<sup>47</sup> Cyflogau 2020 Llywodraeth Cymru

Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddiffinio a chyhoeddi amcanion gwaith teg

115. Byddai datblygu amcanion gwaith teg penodol yn fater y byddai'r CPG yn darparu cyngor arno i Weinidogion Cymru. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â rhaglen waith y CPG wedi'u cynnwys gyda'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau hynny. Felly, mae'r costau a amcangyfrifir yn yr aseiad hwn wedi'u cyfyngu i'r rhai a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r costau'n rhai enghreifftiol dim ond nes bod modd sefydlu dealltwriaeth o gwmpas a chynnwys yr amcanion gwaith teg.

Gradd	Cyflog blynyddol gydag argostau <sup>48</sup> (£)	Costau fesul diwrnod fesul blwyddyn (rhannwyd â 220)	Cost flynyddol
Dirprwy Gyfarwyddwr – 5 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	114,241	519	2,595
Gradd 7 – 15 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	80,887	368	5,520
HEO – 20 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	48,655	221	4,420
EO – 25 diwrnod y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn	37,775	172	4,300
<b>Cyfanswm</b>			<b>16,835</b>

Wedi'i thalgrynnu i'r cant agosaf, amcangyfrifir mai £16,800 fyddai'r gost

116. Amcangyfrifir mai **£1,600** fydd cost llunio, drafftio a chyhoeddi adroddiad ar ôl pennu amcanion. Mae hyn yn cynnwys costau llunio, drafftio, clirio a chyfieithu adroddiad.

<sup>48</sup> Cyflogau 2020 Llywodraeth Cymru



<b>Gradd</b>	<b>Costau blynyddol</b>	<b>Costau dyddiol</b>	<b>Cost flynyddol</b>
Dirprwy Gyfarwyddwr – 1/2 diwrnod (cymeradwyo)	114,241	519	260
HEO – 5 diwrnod (ysgrifennu)	48,655	221	1,105
HEO – 1 diwrnod (cyfieithu)	48,655	221	221
<b>Cyfanswm</b>			<b>1,586</b>

## **Dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni a hyrwyddo gwaith teg, a chyflawni amcanion gwaith teg**

### Costau i Gyrrff Cyhoeddus

117. Ystyrir mai dyma fydd y costau i gyrrff cyhoeddus:

- a. costau adrodd;
- b. costau ymgyswngt;
- c. costau ychwanegol trafodaethau partneriaeth gymdeithasol ar ben strwythurau trafod sy'n bodoli eisoes.

### Costau adrodd

118. Mae'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag adrodd yn debygol o gynnwys swyddog gweinyddol yn casglu gwybodaeth am weithrediad partneriaeth gymdeithasol drwy gydol y flwyddyn a chynhyrchu adroddiad, cyn ei anfon at Lywodraeth Cymru.

119. Mae'r data ASHE amodol ar gyfer 2020 yn dangos mai enillion gros canolrifol yr awr yng Nghymru ar gyfer galwedigaethau gweinyddol: y llywodraeth a sefydliadau cysylltiedig yw £12.35.<sup>49</sup> Mae data Eurostat ar gyfer 2020 yn dangos mai tua 30% oedd y costau nad ydynt yn gyflogau yn y DU, gan roi £16.05 fel cyfanswm y gost fesul awr.

120. Mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn berthnasol i 44 o gyrrff cyhoeddus.

<sup>49</sup> Data ASHE amodol 2020 - Wales, Galwedigaethau gweinyddol: Llywodraethau a sefydliadau cysylltiedig

121. Yr amcangyfrif o'r gost yw £16.05 (cyfanswm y gost fesul awr) x 3 (nifer yr oriau) = £48.15 (cost fesul sefydliad). Y gost hon x 44 (corff cyhoeddus) = £2,118.6 (cyfanswm y gost). Wedi'i thalgrynnu i'r cant agosaf, **£2,100** yw'r gost

#### Ymgysfarwyddo

122. Gan dybio y bydd y gweithgareddau ymgysfarwyddo'n cymryd tua tair awr o amser swyddog, ar sail yr un cyfrifiad â'r un ar gyfer adrodd, y gost ymgysfarwyddo fesul sefydliad sector cyhoeddus fyddai tua £48.15 (£16.05 x 3 awr). Ar sail nifer y cyrff cyhoeddus a nodir uchod, yr amcangyfrif o gyfanswm y gost ymgysfarwyddo untro i'r sector cyhoeddus yw £2,118.60. Wedi'i thalgrynnu i'r cant agosaf, £2,100 yw'r gost.
123. Mae'n bosibl y bydd angen ymgysfarwyddo hefyd os bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar weithredu partneriaeth gymdeithasol neu adrodd arni. Rhagwelir y byddai canllawiau'n cael eu cyhoeddi unwaith y flwyddyn ar y mwyaf, ond yn ymarferol maent yn debygol o gael eu cyhoeddi'n llai aml o lawer. Y rheswm am hyn yw, os bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi, mae hynny'n debygol o fod mewn ymateb i'r cylch adrodd blynyddol.

#### Costau ychwanegol partneriaeth gymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus

124. Ar hyn o bryd, mae strwythurau undebau llafur a chyflogwyr ar draws y 44 o gyrff gyhoeddus a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Mae gan y sefydliadau hyn strwythurau ar gyfer cydfargeinio rhwng undebau llafur a chyflogwyr. Ni ragwelir y byddai strwythurau newydd yn cael eu creu, ond y byddai gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac ymgynghori yn cael eu hychwanegu at y trefniadau presennol.
125. Byddai hyn yn cynnwys amser paratoi ychwanegol ac amser ychwanegol mewn cyfarfodydd i gynrychiolwyr undebau llafur ac i gyflogwyr.
126. Tybir bod cyfarfod partneriaeth gymdeithasol yn cael ei gynnal bedair gwaith y flwyddyn, bod tri chynrychiolwyr o ochr yr undeb llafur a thri o ochr y cyflogwr. At ddibenion costio, tybir hefyd bod ochr y cyflogwr yn cynnwys uwch swyddog adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol. Oherwydd bod cynrychiolwyr undebau llafur yn gallu bod ar unrhyw raddfa ar draws sefydliad, mae'n anodd asesu costau eu cyfranogiad. Er mwyn deall y terfynau uchaf, mae'r costau tebygol wedi cael eu cyfateb i uwch swyddog adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol.

Nifer a swydd	Cyflog gros yr awr x cyfranogwyr x oriau x cyfarfodydd y flwyddyn	Is-gyfanswm
Tri swyddog undeb llafur <sup>50</sup>	14 x 3 x 3 x 4	504
Tri chynrychiolydd o gyflogwr yn y sector cyhoeddus <sup>51</sup>	14 x 3 x 3 x 4	504
Is-gyfanswm		1,008
Argostau cyflogaeth (30%)		302.4
<b>Cyfanswm fesul sefydliad</b>		<b>£1,310.4</b>
<b>Cyfanswm i gyrff cyhoeddus (44)</b>		<b>£57,657.60</b>

Wedi'i thalgrynnu i'r cant agosaf, £57,700 yw'r gost Costau i sefydliadau eraill

127. Nid ystyrir y bydd costau i sefydliadau eraill yn y sector preifat a'r trydydd sector

### Crynodeb

128. Ni fyddai Opsiwn 1 yn newid y system bresennol a byddai partneriaeth gymdeithasol yn parhau mewn ffordd anghyson. Ni fyddai'n cyflawni'r amcan o fframwaith deddfwriaethol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol.
129. Byddai Opsiwn 2 yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ddull gweithredu sy'n seiliedig ar system. Fodd bynnag; nid ydym yn credu y byddai'r opsiwn hwn yn creu system partneriaeth gymdeithasol gydlynol sy'n llwybro drwy drefniadau lleol, cenedlaethol a sectoraidd sy'n gyson ar lefel deirochrog rhwng y Llywodraeth, undebau llafur a chyflogwyr.

### Opsiwn a Ffefrir

130. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd byddai'n darparu ar gyfer system partneriaeth gymdeithasol sy'n integredig ac yn gyson â'r uchelgais gyffredinol, ac â'r cynigion ar gyfer Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol fel arweinydd y system.

### Costau Ychwanegol

131. Nid yw wedi bod yn bosibl cyfrifo costau ychwanegol canlyniadau posibl y fframwaith a sefydlir drwy'r ddeddfwriaeth arfaethedig, ond mae amcangyfrifon wedi'u gwneud o ran pa mor aml y byddai darpariaethau'r Bil drafft yn debygol o arwain at ymyriad deddfwriaethol. Y rheswm am hyn yw bod y canlyniadau'n dibynnu ar sawl parti'n gweithio ar draws

<sup>50</sup> Swyddogion adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol – Data ASHE amodol 2020

<sup>51</sup> Fel yr uchod

gwahanol lefelau, gyda chanlyniadau unigol fesul corff cyhoeddus, yn debyg i'r canlyniadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

132. Yn benodol, mae'r cynigion ychwanegol yn cyfeirio at ddyletswyddau gwaith teg ar Weinidogion Cymru, gan gynnwys gofynion mewn cysylltiad â'r nod gwaith teg. Mae hon yn ddyletswydd eang a allai arwain at oblygiadau i gyrff cyhoeddus ar ben dyletswyddau eraill, er enghraifft y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau.

### **Dyletswyddau gwaith teg**

Mae heriau'n gysylltiedig â diffinïon glir y costau disgwylïedig i Lywodraeth Cymru mewn perthynas a'r dyletswyddau gwaith teg a nodir yn y Bil drafft ac a ddisgrifir yn y Memorandwm Esboniadol.

**Cydran: Dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i bennu amcanion gwaith teg mewn ymgynghoriad â Chyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol, i gymryd camau gweithredu i gyflawni'r amcanion hynny, ac i adrodd yn flynyddol ar y camau sydd wedi'u cymryd a'r cynnydd sydd wedi'i wneud.**

133. Mae hyn yn creu potensial i amcanion a chamau gweithredu gwaith teg Gweinidogion Cymru fod yn berthnasol i amrywiaeth eang o faterion. Mae hyn yn creu heriau at ddibenion costio.
134. Bydd amcanion yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru mewn ymgynghoriad â'r CPG ac ni fyddai'n briodol achub y blaen ar y gwaith hwn. Fodd bynnag, i helpu i ddangos y prosesau a'r costau posibl, mae'r enghreifftiau dangosol canlynol wedi'u nodi. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru wrth gefnogi cyflawniad yr amcanion hyn.
135. Nid yw'r amcanion gwaith teg wedi'u pennu eto ac felly mae tybiaethau sylfaenol wedi'u gwneud ynglŷn â'r adnoddau a ddyrennir. Wrth i amser fynd heibio, mae'n debygol y bydd rhagor o amcanion i adrodd arnynt yn cael eu hychwanegu, gan gynyddu'r costau o bosibl, ond byddai hefyd llinell sylfaen i adrodd yn ei herbyn, a fyddai'n cynyddu effeithlonrwydd y broses adrodd.
136. Hefyd byddai angen ystyried y goblygiadau o ran adrodd a'r costau cysylltiedig wrth bennu a chyhoeddi amcan gwaith teg.

### **Enghraifft 1**

**Amcan enghreifftiol:** Gwella a chefnogi cyfleoedd i weithwyr weithio o bell ac yn hyblyg ledled Cymru, ac mewn ffyrdd sy'n gwella llesiant, y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

**Cam gweithredu'r polisi:** Datblygu 'egwyddorion cenedlaethol' ar gyfer gweithio o bell, gan gynnwys ystyried y cymorth a allai fod ei angen ar gyflogwyr a gweithwyr i weithio o bell yn effeithiol ac yn ddiogel.

**Nodweddion darparu:** Nodi a meithrin consensws ynghylch goblygiadau polisi gweithio o bell i'r gweithlu, a champau gweithredu sy'n sicrhau bod yr agwedd at weithio o bell yn cyd-fynd â gwaith teg.

**Costau:** Staff Llywodraeth Cymru – Dirprwy Gyfarwyddwr a Gradd 7. Cyfanswm amser 1 diwrnod y mis (yr un) = £10,664 yw'r amcangyfrif o'r gost cyfle flynyddol (Cyfrifiad yn seiliedig ar gostau cyflogau cyfartalog 2020-21)

## Enghraifft 2

**Amcan enghreifftiol:** Cynyddu'r mynediad at ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith i helpu i ddatblygu gweithlu mwy cynhyrchiol ac effeithiol, a gwella'r cyfleoedd i gam ymlaen.

**Cam gweithredu'r polisi:** Gosod targed y cytunir arno ar gyfer cynyddu nifer yr oriau o ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith.

**Nodweddion darparu:** Cytuno ar bartneriaid cymdeithasol, sicrhau cefnogaeth darparwyr hyfforddiant, ac integreiddio i agenda sgiliau ehangach Llywodraeth Cymru.

**Cost:** Amser staff Llywodraeth Cymru – Dirprwy Gyfarwyddwr, Gradd 7 a SEO. Cyfanswm yr amser 2 ddiwrnod y mis wedi'u rhannu ar draws y tair gradd = £10,120 (cyfrifiad yn seiliedig ar gostau staff cyfartalog).

137. Byddai adrodd yn golygu bod adborth ar gael i Weinidogion Cymru. Byddai hyn yn eu helpu i bennu amcanion yn y dyfodol, gan sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth a'u bod mewn meysydd lle mae angen clir ac y byddai ymyriadau'n ychwanegu gwerth.
138. Byddai **cost cyfle** ar gyfer amser Gweinidogion Cymru yn ystyried cynnwys adroddiadau'r CPG, unrhyw ddogfennau briffio ategol, ac yn ymateb i gwestiynau'r Senedd o bosibl. Nid yw'n bosibl mesur yr amser hwn oherwydd byddai'n dibynnu ar natur cynnwys adroddiadau ac unrhyw achosion uchel eu proffil, neu dueddiadau pryderus, y byddai disgwyl iddynt arwain at gwestiynau a rhagor o graffu. Felly, nid yw'r gost yn hysbys ar hyn o bryd.
139. Yn ogystal â hyn, byddai cost cyfle i Lywodraeth Cymru ar sail faint o **amser staff** sydd ei angen bob blwyddyn i gasglu gwybodaeth, i baratoi a drafftio papurau, ac i friffio Gweinidogion mewn cysylltiad â'r ddyletswydd. Mae'r ddogfen hon yn darparu syniad o gostau cyfarfodydd rheolaidd y CPG.

140. Er ein bod wedi cyfyngu ein gwaith costio i gyd-destun Llywodraeth Cymru, o ran costau gweithredu'r canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion o ganlyniad i'r cyngor a ddarperir gan y CPG, byddai disgwyl i drefniadau gweithio cyrff datganoledig yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ysgwyddo'r rhain, fel rhan o'u rôl mewn Partneriaeth Gymdeithasol statudol.

#### 4. Mynnu bod cyrff cyhoeddus penodol yn caffael mewn modd cymdeithasol gyfrifol

**Opsiwn 1** – gwneud dim

**Opsiwn 2** – cyflwyno deddfwriaeth newydd, fwy cul, sy'n cynnwys dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol.

**Opsiwn 3** – yr opsiwn a ffeirir – cyflwyno deddfwriaeth newydd, ehangach, sy'n cynnwys dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol (Opsiwn 2) yn ogystal â dyletswyddau rheoli contractau a mecanweithiau i roi sylw i gydymffurfedd.

Tabl: crynodeb o'r amcangyfrif o gostau'r tri opsiwn i fynnu bod cyrff cyhoeddus penodol yn caffael mewn modd cymdeithasol gyfrifol fel rhan o'u dyletswydd i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol

£

	<b>Opsiwn 1 – gwneud dim</b>	<b>Opsiwn 2 – deddfwriaeth newydd, fwy cul</b>	<b>Opsiwn 3 – deddfwriaeth newydd, ehangach</b>
Costau trosiannol	-	162,100	162,100
Costau rhedeg blynyddol	5,341,000	5,744,800	11,480,100
Cyfanswm costau dros 5 mlynedd	26,705,000	28,886,100	57,562,600
Costau net dros 5 mlynedd	-	2,181,100	30,857,600

Mae rhestr o gyrff a fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn y Bil drafft wedi'i nodi yn Atodiad 1 y ddogfen hon. Cyfeirir atynt yn y Bil drafft fel "*awdurdodau contractio*" ac at ddiben yr asesiad hwn rydym wedi ceisio rhagfynegi pa ddyletswyddau penodol sy'n debygol o effeithio ar bob corff. Mae hyn yn seiliedig ar y data gwariant, yr adroddiadau blynyddol/ariannol, a'r data tendro diweddaraf sydd ar gael ar wefan GwerthwchiGymru.

## Opsiwn 1 – nad yw'n cael ei argymell – gwneud dim.

### Disgrifiad

141. Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli'r status quo. Byddai blaenoriaethau polisi caffael presennol – a'r rhai sydd yn yr arfaeth o dan Ddatganiad Polisi Caffael newydd Cymru – yn cael eu cefnogi gan dîm polisi caffael Llywodraeth Cymru.
142. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw ddyletswyddau caffael newydd yn y Bil drafft. Byddai'r gwaith o gyflawni a chefnogi'r polisi caffael presennol, a'r mentrau a'r prosiectau cysylltiedig, yn cael ei arwain gan dîm bach yng Nghyfarwyddiaeth Masnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru. Mae costau hyn wedi'u nodi yn Nhabl 1.1 isod. Byddai'r opsiwn hwn **yn golygu dim costau ychwanegol**.
143. Hefyd, byddai'r opsiwn hwn **yn golygu dim manteision ychwanegol** i'r sector preifat na'r sector cyhoeddus ehangach. Mae hefyd costau cyfle na ellir eu mesur drwy beidio â chysoni datblygiad polisi caffael â phartneriaeth gymdeithasol drwy'r Bil drafft, sef:
- colli cyfle i herio arferion caffael yn y sector cyhoeddus ymhellach;
  - colli cyfle am ragor o gydlyniant a chysondeb rhwng meysydd polisi sy'n perthyn yn agos;
  - dim llwyfan deddfwriaethol i Lywodraeth Cymru sbarduno canlyniadau polisi;
  - colli cyfle i ddefnyddio adroddiadau blynyddol ar gyfer ymyrryd a datblygu polisiâu yn seiliedig ar ddata;
  - colli cyfle i orfodi tryloywder mewn cadwyni cyflenwi;
  - colli cyfle i gryfhau'r mecanweithiau ar gyfer mynd i'r afael â phryderon a godir am weithgareddau caffael a rheoli contractau;
  - colli cyfle i hybu cynllunio ymlaen llaw a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol.

**Tabl 1.1 – er gwybodaeth** – dadansoddiad o gostau gweinyddol presennol staff Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Masnachol a Chaffael (dim costau ychwanegol).

<b>Costau'r Gyfarwyddiaeth Masnachol a Chaffael</b>		
<b>Caffael Masnachol</b>	<b>2020</b>	
	<b>Cyfanswm</b>	
<b>Gradd</b>	<b>Nifer</b>	<b>Cost</b>
Cyfarwyddwr	1	176,000
Dirprwy Gyfarwyddwr	1	114,000
Gradd 6	2	190,483
Gradd 7	6	467,051
SEO	15	887,135
HEO	12	558,737
EO	5	178,926
TS	2	57,523
<b>Is-gyfanswm y Rhaglen</b>	<b>44</b>	<b>2,629,855</b>
Gradd 6	4	380,967
Gradd 7	6	467,051
SEO	14	827,993
HEO	15	698,422
EO	7	250,496
TS	3	86,285
<b>Is-gyfanswm DRC</b>	<b>49</b>	<b>2,711,213</b>
<b>Cyfanswm y Gyfarwyddiaeth</b>	<b>93</b>	<b>5,341,068</b>

DS seiliedig ar gostau staff presennol gwirioneddol, nid cyfraddau gradd cyfartalog.



## **Opsiwn 2 – nad yw'n cael ei argymell – cyflwyno deddfwriaeth newydd, fwy cul, sy'n cynnwys dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol.**

### **Disgrifiad**

144. O dan yr opsiwn hwn byddai rhai cyrff, sydd wedi'u diffinio fel awdurdodau contractio yn y Bil drafft:
  - a. yn cyflawni'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol (fel y nodir yn y Bil drafft a'i hategu mewn Canllawiau Statudol) ym mhob gweithgaredd caffael cyhoeddus fel y diffinnir yn y Bil drafft;
  - b. yn pennu amcanion ar gyfer cyflawni'r nodau caffael cymdeithasol gyfrifol ac yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn ar gyfer eu holl 'weithgareddau caffael rhagnodedig' – pob contract adeiladu dros £2m, pob contract allanoli gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gontractau a nodir mewn rheoliadau. Bwriad y polisi ar hyn o bryd yw y bydd Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, yn rhagnodi contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau uwchben trothwy o £122,976.
  - c. yn cyhoeddi strategaethau caffael, yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol, yn cyhoeddi cofrestr contractau, ac yn cyhoeddi rhagolwg.
145. Ar ben hynny, byddai Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol yn cynnwys crynodeb o'r adroddiadau blynyddol a ddaeth i law ac o unrhyw ymchwiliadau caffael.
146. Byddai gan y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus strategaeth gaffael yn barod (canfu rhaglen Gwiriadau Addasrwydd 2013/14 Gwerth Cymru fod gan bob un ond un awdurdod lleol yng Nghymru strategaeth mewn lle), ond byddai'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn gwneud hyn yn ofyniad cyfreithiol, ynghyd â'r ddyletswydd i baratoi adroddiad blynyddol ar ei gaffael cyhoeddus os yw wedi dyfarnu unrhyw gontractau rhagnodedig. Byddai pennu amcanion yn weithgaredd newydd ond yn cael ei gyflawni yng nghyd-destun datblygu strategaethau. Bydd gofal yn cael ei gymryd i sicrhau bod y gofynion hyn yn gymesur, er mwyn sicrhau nad yw'r broses yn rhy feichus i gyrff llai â gwariant blynyddol is.
147. O dan yr opsiwn hwn, byddai crynodeb o'r amcanion, y strategaethau a'r adroddiadau hyn yn cael ei adolygu gan Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol a'i is-grŵp caffael. Dim ond drwy ragor o dryloywder ac ailffocysu disgwyliadau a chanllawiau polisi y byddai cydymffurfedd yn cael ei sicrhau.

## Costau cynigion

148. Un o ganlyniadau tebygol canolbwyntio mwy ar ddeilliannau caffael cymdeithasol gyfrifol, yn enwedig yn y tymor byr, fyddai cynnydd mewn prisiau cynigion. Byddai hyn yn digwydd pe bai gofynion ychwanegol yn cael eu gosod ar fusnesau heb ystyriaeth ofalus i sicrhau bod y ceisiadau'n gymesur ac yn canolbwyntio ar feysydd o risg uwch. Bydd datblygu canllawiau statudol o ansawdd uchel, a darparu cymorth i staff caffael a rheoli contractau ledled Cymru, yn hollbwysig o ran sicrhau manteision yn y modd mwyaf costeffeithiol. Mae'n bosibl y bydd costau hirdymor cyflawni gwaith teg, canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol a datblygu economïau lleol yn lleihau o ganlyniad i well cydraddoldeb economaidd, gwell gwasanaethau cyhoeddus a manteision amgylcheddol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nodau a'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cyflog Byw

149. Drwy ganolbwyntio mwy ar waith teg, byddai cost ychwanegol debygol arall yn cael ei hysgwyddo drwy fabwysiadu'r cyflog byw gwirioneddol i raddau mwy mewn cadwyni cyflenwi. Dylid nodi, o dan y gyfraith caffael gyfredol, ni ellir gwneud talu'r cyflog byw gwirioneddol yn ofyniad mewn contract. Yn yr un modd ag yn yr Alban, mae rhai cynigion yn cael eu sgorio yn ôl set o ddangosyddion ar waith teg ar hyn o bryd, sy'n cynnwys talu uwchben y cyflog byw gwirioneddol. Mae hyn yn arferiad mewn nifer o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn gyflogwyr cyflog byw achrededig, ond mae llawer o le i wella.
150. Byddai unrhyw gynnydd yn y nifer sy'n talu cyflog byw gwirioneddol o ganlyniad i'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol o fudd amlwg i'r cyflogeion hynny mewn sefydliadau cyflenwi sy'n cael eu talu islaw'r lefel hon. Byddai manteision posibl i'r Trysorlys ac i Lywodraeth Cymru hefyd, a hynny ar ffurf derbyniadau treth uwch a lleihad mewn budd-daliadau (ond byddai'n rhaid cydbwyso'r rhain yn erbyn lleihad posibl mewn derbyniadau treth gorfforaeth), yn ogystal â set ehangach o fanteision iechyd a chymdeithasol drwy leihau tlodi. Mae Ysgol Fusnes Caerdydd wedi bod yn cynnal ymchwil i effaith cynnydd yn y nifer sy'n talu'r cyflog byw gwirioneddol yng nghyd-destun economi Cymru, ond nid yw'n bosibl rhagfynegi'r cynnydd tebygol yn nifer y bobl y mae eu cyflog yn codi o ganlyniad i'r Bil drafft hwn, felly nid oes modd mesur yr effeithiau. Dylid nodi bod Llywodraeth yr Alban wedi cofnodi cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n talu'r cyflog byw gwirioneddol drwy weithgareddau caffael o ganlyniad i'w Dyletswydd Caffael Cynaliadwy yn Neddf Diwygio Caffael (Yr Alban) 2014.

151. Er y byddai o fudd i gyflogeion, byddai codiad cyflog (er enghraifft i lefelau uwchben y cyflog byw gwirioneddol) yn arwain at gynnydd cyfatebol yng nghostau gweithredu'r cyflenwyr sector cyhoeddus hynny sydd ar hyn o bryd yn talu cyflogau is i gweithwyr sy'n cyflawni contractau a fyddai'n ddarostyngedig i'r Bil drafft hwn. Byddai'r effaith ar economi Cymru'n dibynnu ar ymateb y sefydliadau hynny i'r cynnydd mewn costau. Mae'n bosibl y bydd rhai busnesau'n dewis peidio â chynnig am gontractau sy'n ddarostyngedig i'r Bil drafft hwn yn y dyfodol, yn enwedig os mai rhan gymharol fach o'u busnes yw cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i sector cyhoeddus Cymru. Mae'n bosibl y bydd busnesau eraill yn ymateb i'r cynnydd mewn costau drwy un (neu gyfuniad) o'r ffyrdd canlynol:
- (a) ysgwyddo'r cynnydd mewn costau drwy dderbyn lleihad yn yr elw;
  - (b) lleihau costau gweithredu, er enghraifft lleihau nifer y cyflogeion neu leihau eu horiau gwaith;
  - (c) pasio'r cynnydd mewn costau ymlaen i gwsmeriaid drwy godi prisiau.
152. Pe bai prisiau cyflenwyr yn codi, byddai lleihad yn y nwyddau a'r gwasanaethau y gellir eu caffael gyda chyllideb caffael sector cyhoeddus sefydlog o £6.4 biliwn.
153. Ond mae manteision (eto rhai na ellir eu mesur) i fusnesau drwy godi cyflogau hefyd – er enghraifft llai o absenoldeb salwch a throsiant staff, a gwell morâl a chynhyrchiant. Pe bai busnesau'n dewis ymateb drwy ysgwyddo'r cynnydd mewn costau, byddai hyn yn aiddosbarthiad o berchnogion/rhanddeiliaid busnes i grŵp incwm is (fel arfer). Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag academyddion a rhanddeiliaid eraill i sefydlu i ba raddau y gellir mesur y manteision cost hyn.
154. Byddai'r adolygiad ôl-weithredu yn cynnwys asesiad o effaith economaidd y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol.

## **Costau Staff**

155. Byddai'r costau o dan yr opsiwn hwn yn codi drwy adnoddau Llywodraeth Cymru yn bennaf, y byddai eu hangen i gefnogi a monitro'r ddarpariaeth, a'r rhai sy'n codi yn sgil gweithgareddau adrodd y sector cyhoeddus ehangach. Byddai costau hefyd yn cael eu hysgwyddo gan y sector cyhoeddus ehangach drwy gyflawni ei ddyletswyddau mewn cysylltiad â strategaethau adrodd a chyhoeddi. Byddai'r costau'n uwch yn ystod y blynyddoedd cyntaf ac yn lleihau dros amser.

## Costau i Lywodraeth Cymru

156. Mae rhai costau ar gyfer cefnogi Opsiwn 2, fel y nodir uchod, eisoes wedi'u cynnwys yng nghyllideb y Gyfarwyddiaeth Masnachol a Chaffael, ac felly **nid ydynt yn gostau ychwanegol a fyddai'n codi o ganlyniad i'r Bil drafft**. Byddai'r gwaith o gasglu adroddiadau blynyddol ynghyd o setiau data yn gallu cael ei wneud gan rolau sy'n bodoli eisoes, felly ni fyddai hynny'n gost fesuradwy ychwanegol.
157. Mae'r rhan fwyaf o'r costau i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn yn codi o'r angen am adnoddau estynedig, yn enwedig yn ystod y flwyddyn neu ddwy gyntaf, i gefnogi'r gwaith o roi canllawiau statudol ar waith ac o gasglu, prosesu a dadansoddi adroddiadau blynyddol. Byddai hefyd yn cynnwys costau cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ei hun, a fyddai'n nodi'r cyflawniadau ar gyfer pob blwyddyn flaenorol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y blynyddoedd nesaf.
158. Mae Tablau 2.1 a 2.2 yn nodi'r amcangyfrif o'r costau ar gyfer yr adnoddau ychwanegol hyn a'r rhaglen gysylltiedig y byddai eu hangen i gefnogi'r ddarpariaeth o dan Opsiwn 2. Wrth gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn, rhoddwyd ystyriaeth i sut roedd Llywodraeth yr Alban wedi cyflawni'r un swyddogaethau fwy neu lai i gefnogi tua 110 o gyrff sydd, yn ôl cydweithwyr yng Nghyfarwyddiaeth Caffael ac Eiddo Llywodraeth yr Alban, wedi bod yn gymesur ac yn effeithiol. Byddai Opsiwn 2 hefyd yn gofyn am gynlluniau prosiect effeithiol i ategu gweithrediad y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol newydd. Byddai hyn yn cael ei wneud gan y staff ychwanegol a nodir yn Nhabl 2.1.
159. Er mwyn hysbysu ac uwchsgilio'r sector cyhoeddus ehangach, byddai gweithredu Opsiwn 2 yn gofyn am weithgareddau ychwanegol fel cyhoeddi canllawiau statudol ac ategol, sesiynau hyfforddi, cyfarfodydd un-i-un a gweminarau, cyfathrebiadau, a sesiynau ymwybyddiaeth rhanbarthol. Mae'r amcangyfrif o gostau'r gweithgareddau hyn yn Nhabl 2.2.

**Tabl 2.1** – costau ychwanegol ar gyfer staff ychwanegol i gefnogi darpariaeth barhaus Opsiwn 2 (costau blynyddol)

	£	£
<b>Gradd</b>	<b>Cost misol</b>	<b>Cost staff flynyddol</b>
G7 x 0.5	3,370.50	40,443.50
SEO x 1	5,223	62,678
HEO x 2	8,110	97,310
Cymorth Tîm x 0.5	1,281	15,372
<b>Cyfanswm Costau Staff</b>	<b>17,984.50</b>	<b>215,803.50</b>

**Tabl 2.2** – amcangyfrif o'r costau rhaglen ychwanegol i gefnogi gweithrediad Opsiwn 2 (costau gweithredu)

£

<b>Polisi</b>	<b>Cost</b>
Nodyn Cyngor Caffael	Amser staff yn unig
Datblygu canllawiau statudol	5,000
Bwletin Caffael	Amser staff yn unig
Sesiynau ymwybyddiaeth rhanbarthol	10,000
Teithiau staff i gwrdd â phenaethiaid caffael	15,000
Adolygu ac adrodd (yn flynyddol)	25,000
Gweminarau blynyddol	2,000
Adolygiad ôl-weithredu (blwyddyn 3 neu 4)	25,000
<b>Cyfanswm y costau rhaglen</b>	<b>82,000</b>

### Costau i'r sector cyhoeddus ehangach

160. Mae gan y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru strategaethau caffael yn barod. Yn ôl y gwiriadau addasrwydd a gynhaliwyd gan Gwerth Cymru yn 2014, roedd gan 21 o awdurdodau lleol strategaeth gaffael bryd hynny, felly byddai'r costau ychwanegol yn hyn o beth yn eithaf isel.

Byddai rhywfaint o gost ymlaen llaw wrth bennu amcanion a datblygu prosesau caffael cymdeithasol gyfrifol ymhellach. Fodd bynnag, mae arferion da eisoes yn mynnu bod nifer o'r mathau hyn o gwestiynau ac amodau contract yn cael eu cynnwys wrth hysbysebu a dyfarnu tendrau, a byddai unrhyw gostau amser ychwanegol yn codi yn y camau cyntaf wrth roi canllawiau newydd ar waith.

161. Byddai Opsiwn 2 yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i gynhyrchu adroddiadau caffael blynyddol os ydynt wedi dyfarnu 'contract rhagnodedig'. Byddai unrhyw lwyth gwaith ychwanegol yn eithaf isel yn hyn o beth hefyd o ganlyniad i'r prosesau adrodd mewnol sy'n bodoli eisoes mewn cysylltiad â phrosesau tendro, a'r gwaith adrodd ar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n debygol o gasglu llawer o'r data sydd eu hangen. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i staff ganolbwyntio ar ganlyniadau penodol a allai gymryd rhagor o amser ac arwain at ddyblygu ymdrechion os na chaiff ei reoli'n ofalus, yn enwedig yn ystod y flwyddyn gyntaf. Byddai cynhyrchu adroddiadau blynyddol yn golygu bod angen llenwi templedi data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru mewn canllawiau statudol. Byddai unrhyw gostau diriaethol a ragwelir yn codi ar ffurf amser Penaethiaid Caffael a staff eraill yn casglu gwybodaeth ynghyd ac yn cynhyrchu'r adroddiad blynyddol. Mae hyn yn cael ei nodi yn Nhabl 2.3.
162. Mae cost yn debygol o fod yn gysylltiedig â phresenolden staff mewn sesiynau hyfforddi a sesiynau ymwybyddiaeth, ac mae hyn yn cael ei nodi yn Nhabl 2.4.

**Tabl 2.3** – costau a ysgwyddir drwy gasglu ynghyd y data sydd eu hangen i adrodd ar ganlyniadau caffael cymdeithasol gyfrifol (costau blynyddol)

	£		£
<b>Gradd</b>	<b>Amcangyfrif o'r gyfradd ddyddiol (cyfradd misol/20)</b>	<b>Amser</b>	<b>Cost pro rata</b>
Pennaeth Caffael x 100	337.05	2 ddiwrnod	67,410
Uwch swyddog caffael (cyfwerth ag SEO) x 100	261.15	2 ddiwrnod	52,230
<b>Amcangyfrif o gyfanswm y gost</b>			<b>119,640</b>

DS mae cyfraddau procsi sydd gyfwerth â G7 ac SEO Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfraddau cyflog staff o ganlyniad i'r amrywiadau ar draws y sector cyhoeddus a'r gwahaniaethau mewn teitlau swyddi.

**Tabl 2.4** – costau a ysgwyddir gan y sector cyhoeddus ar gyfer amser staff mewn sesiynau hyfforddi a sesiynau ymwybyddiaeth (costau gweithredu)

	£		£
<b>Gradd</b>	<b>Amcangyfrif o'r gyfradd ddyddiol (cyfradd misol/20)</b>	<b>Amser</b>	<b>Cost pro rata</b>
Pennaeth Caffael (cyfwerth â G7) x 100	337.05	1 diwrnod	33,705
Uwch swyddog caffael (cyfwerth ag SEO) x 100	261.15	1 diwrnod	26,115
Swyddog caffael (cyfwerth ag HEO) x 100	202.75	1 diwrnod	20,275
<b>Amcangyfrif o gyfanswm y gost</b>			<b>80,095</b>

DS mae cyfartaledd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfraddau cyflog staff o ganlyniad i'r amrywiadau ar draws y sector cyhoeddus a'r gwahaniaethau mewn teitlau swyddi.

### Costau i'r sector preifat

163. Gallai unrhyw gostau a ysgwyddir gan y sector preifat godi o ddisgwyliad uwch i gyflawni canlyniadau caffael cymdeithasol gyfrifol. Byddai'r enghreifftiau'n cynnwys defnyddio rhagor o ddeunyddiau sy'n cael eu caffael yn gynaliadwy, a staff yn cael rhagor o hyfforddiant a gwell telerau ac amodau cyflogaeth, gan gynnwys eu codi i'r cyflog byw gwirioneddol (gweler y testun o dan Opsiwn 3 am drafodaeth bellach ar hyn). Gallai costau eraill godi ar ffurf amser staff yn mynychu sesiynau hyfforddi a sesiynau ymwybyddiaeth ychwanegol a allai fod ar gael drwy Busnes Cymru, er enghraifft. Mae'n anodd amcangyfrif y costau hyn oherwydd nid yw'n bosibl gwybod sawl busnes sydd ar hyn o bryd yn darparu nwyddau, gwasanaethau neu waith i'r awdurdodau contractio sy'n ddarostyngedig i'r Bil drafft, pa gyfran o'r rhain fyddai'n gorfod canolbwyntio ar faterion penodol, i ba raddau byddent yn dymuno defnyddio'r sesiynau hyfforddi, y sesiynau ymwybyddiaeth neu'r cymorth

un-i-un a fyddai ar gael, neu sawl cyflogai (ac ar ba lefel) fyddai angen bod yn bresennol.

164. Yn yr un modd ag Opsiynau 1 a 3, mae swyddogion Busnes Cymru wedi nodi y byddai cymorth ar gael i helpu cwmnïau i baratoi ar gyfer ymateb i'r gofynion a osodir arnynt gan y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn y Bil drafft.

### **Costau yn y tymor hir**

165. Er y byddai costau ychwanegol i bob parti yn y tymor byr wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio ac i brosesau adrodd, yn y tymor canolig mae potensial i Opsiwn 2 gostio llai na'r status quo (Opsiwn 1) o ganlyniad i'r nod o symleiddio'r set bresennol o ofynion polisi a mecanweithiau adrodd.

### **Manteision**

166. Mae'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn ymwneud â phrosesau mwy cadarn ar gyfer hybu canlyniadau cymdeithasol gyfrifol, fel y rhai a gyflawnir drwy arferion cyflogaeth mwy moesegol mewn cadwyni cyflenwi. Byddai hyn yn cael ei sicrhau drwy osod dyletswydd ar awdurdodau contractio i roi sylw i ganllawiau statudol, ac ychwanegu gofynion tryloywder ac adrodd. Byddai angen adnodd blaenoriaethu polisiau i ganolbwyntio'r ymdrechion ar y meysydd lle gellir sicrhau'r gwerth uchaf posibl drwy roi polisi ar waith. Mae'r manteision a ragwelir yn cynnwys:
- symleiddio disgwyliadau polisi mewn cysylltiad â chaffael;
  - cyfleoedd i gyflawni amcanion cymdeithasol ehangach o ganlyniad i ofynion tryloywder ychwanegol;
  - gwella cyflogau a gwaith teg, elwa'r economi drwy referniw trethi uwch, cadw arian mewn economïau lleol, a llai o fudd-daliadau;
  - gwella tryloywder gweithgareddau cadwyni cyflenwi, gan arwain at gynnydd mewn arferion da a'r potensial ar gyfer ymyriadau gan reolwyr masnachol;
  - gwell dealltwriaeth o gyflogaeth foesegol, gan gynnwys rhannu arferion da drwy broses adrodd flynyddol;
  - cyfleoedd i wella galluogrwydd caffael cyhoeddus er mwyn sicrhau gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus, lleihau anghydraddoldeb, a chyflawni amcanion llesiant.
167. Gallai'r manteision i fusnesau a sefydliadau mewn cadwyni cyflenwi fod yn sylweddol ym mhob ffordd, gan gynnwys manteision ariannol drwy gynhyrchiant uwch staff, gwell gwasanaeth a gwerthiannau uwch ac ati. Mae'r manteision i Gymru yn y tymor hir hefyd yn amhosibl eu mesur ond



yn debygol o fod yn sylweddol, o ystyried graddfa'r gwariant caffael yng Nghymru bob blwyddyn.

### Crynodeb o'r costau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf)

£

<b>215.</b>	
<b>Trosiannol</b>	
Tabl 2.2	82,000
Tabl 2.4	80,100
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>162,100</b>
<b>Blynyddol</b>	
Tabl 2.1	215,800
Tabl 2.3	119,600
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>335,400</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>497,500</b>

168. **Felly, yr amcangyfrif o'r gost gweithredu ar gyfer yr opsiwn hwn yw £162,100, a'r amcangyfrif o'r gost flynyddol yw £335,400.**

**Opsiwn 3 – yr opsiwn a ffefir – cyflwyno deddfwriaeth newydd, ehangach, sy'n cynnwys dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol (Opsiwn 2) yn ogystal â dyletswyddau rheoli contractau**

#### **Disgrifiad**

169. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r awdurdodau contractio a nodir yn Opsiwn 2 yn cyflawni'r un dyletswyddau a ddisgrifir yn yr opsiwn hwnnw, ond byddai rhaid iddynt wneud y canlynol hefyd:

- cyflawni dyletswydd dylunio/dyfarnu/rheoli contractau **ar gyfer contractau adeiladu dros £2m** mewn perthynas â chynnwys cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau o'r fath fel yr amlinellir yn y Bil drafft, gan gynnwys eu gweithredu drwy'r gadwyn gyflenwi i gyd, a phroses Adrodd am Eithriadau lle bo angen;
- cyflawni dyletswydd dylunio/dyfarnu/rheoli contractau **ar gyfer contractau allanoli gwasanaethau** mewn perthynas â Chod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu 2014 (Cod y Gweithlu Dwy Haen) a chynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau o'r fath,

gan gynnwys eu gweithredu drwy'r gadwyn gyflenwi i gyd, a phroses Adrodd am Eithriadau lle bo angen.

170. Byddai rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:
- cefnogi is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol;
  - sefydlu pŵer ymchwilio newydd i Weinidogion Cymru drwy sefydlu gwasanaeth adborth newydd arfaethedig;
  - cyhoeddi cymalau contractau enghreifftiol a chanllawiau.
171. **I grynhoi, er y byddai'n sicrhau'r un manteision ag Opsiwn 2, byddai'r opsiwn hwn yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau contractio er mwyn eu gwneud yn fwy tebygol o gydymffurfio.** Byddai'r opsiwn hwn yn hoelio sylw ar gyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol drwy gynnwys cymalau perthnasol mewn contractau, trosglwyddo'r rhain drwy gadwyni cyflenwi, a rhoi prosesau ar waith i fonitro'r trefniadau hyn drwy gadwyni cyflenwi ac adrodd ar ganlyniadau. Byddai'r cynlluniau hyn yn cynnwys proses Adrodd am Eithriadau i'w chychwyn yn ystod y cam cynllunio cyn caffael pan fydd sefydliad yn penderfynu nad yw'n bwriadu dilyn y prosesau hyn ar gyfer gweithgaredd caffael penodol.
172. Byddai costau'n gysylltiedig â'r broses Adrodd am Eithriadau. Mae'n anodd amcangyfrif pa mor aml y byddai Llywodraeth Cymru yn cael Hysbysiad am Eithriad. I ddelio ag adroddiadau'n brydlon, rydym yn rhagweld y byddai is-grŵp caffael Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn cwrdd unwaith y flwyddyn i adolygu adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru, ac ar hyd at bum achlysur arall i drafod Adroddiadau am Eithriadau a materion eraill. Gallai hyn gynnwys cyfarfodydd wedi'u trefnu a heb eu trefnu ar-lein, ac mae costau'r rhain wedi'u cynnwys o dan gostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol. Mae unrhyw gostau staff wedi'u nodi yn Nhabl 3.2 isod, oherwydd byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan staff sydd wedi'u hymrwymo i gefnogi Opsiynau 2 a 3.
173. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ymchwilio i weithrediad caffael cyhoeddus mewn awdurdodau contractio. Mae hyn yn debygol o gynnwys gwasanaeth adborth newydd: ffordd i fusnesau, partneriaid cymdeithasol a sefydliadau eraill roi gwybod am bryderon neu uwchgyfeirio pryderon ynglŷn ag achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan y Bil drafft. Byddai hyn, ynghyd â darparu cymorth pwrpasol arall i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn achosi costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Edrychir yn fanylach ar hyn isod.

174. O dan yr opsiwn hwn, byddai adolygiad ôl-weithredu yn cael ei gynnal ar ôl tair neu bedair blynedd er mwyn asesu a yw'r ffactorau llwyddiant hanfodol yn cael eu cyflawni, ac i ba raddau y mae'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn cyflawni ei nodau. Byddai'r adolygiad hwn yn cynnwys adolygiad o gwmpas y contractau sy'n ddarostyngedig i'r Bil.

### **Costau Opsiwn 3**

#### **Costau i Lywodraeth Cymru ac i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru**

175. Mae Opsiwn 3 yn cynnwys yr holl gostau a nodir yn Opsiynau 1 a 2 uchod, yn ogystal â chostau ychwanegol i gefnogi'r dyletswyddau rheoli contractau ychwanegol, y mecanweithiau Adrodd am Eithriadau, a datblygu gwasanaeth adborth newydd.

#### **Cymalau contractau cymdeithasol gyfrifol mewn contractau adeiladu mawr a'u cadwyni cyflenwi**

176. Er mai'r amcanion tymor hir yw gwella contractau ar draws pob sector, mae'r Bil hwn yn canolbwyntio ar gontractau adeiladu mawr, gwerth dros £2m, ac mae'r amcangyfrifon o'r costau wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar hyn. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ddull gweithredu ehangach ar gyfer rheoli contractau i fonitro perfformiad a chydymffurfedd contractwyr mewn cadwyni cyflenwi drwyddynt draw, er mwyn sicrhau bod amcanion penodol yn cael eu cyflawni.
177. Byddai cynnydd mewn caffael cymdeithasol gyfrifol yn gofyn am ddull gweithredu mwy cadarn, â mwy o adnoddau ar gyfer rheoli contractau. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod beth fydd graddfa'r her hon ar draws y sector cyhoeddus a bydd angen gwneud cynnydd dros amser. Felly, nid yw costau uwch rheoli contractau'n well yn fwy cyffredinol wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad hwn. Nid yw'n bosibl asesu i ba raddau y mae pob awdurdod contractio yn y Bil drafft hwn eisoes yn neilltuo adnoddau i'r swyddogaeth hollbwysig hon ar draws ei holl gontractau; mae ymgynghori wedi awgrymu y byddai hyn yn gofyn am gymorth estynedig dros amser.
178. Er bod costio gwaith rheoli contractau yn gywir i unrhyw raddau yn anodd o ganlyniad i wahaniaethau rhwng ac o fewn sefydliadau, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith i amcangyfrifo costau prosiectau cymhleth, ar raddfa fawr, uchel eu risg. Mae'r model a ddefnyddiwyd yn darparu ffigur o 1-2.5% i ganiatáu ar ei gyfer mewn cyllidebau prosiectau adeiladu, a hynny ar sail ymchwil i'r farchnad a ffigurau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Er mwyn ystyried y trefniadau rheoli contractau presennol, rydym wedi cynnwys ffigur o 0.5% ar gyfer yr amcangyfrif o gostau rheoli contractau. Dylid disgwyl y bydd y gwaith o reoli contractau'n cael ei ystyried yn gyfrifoldeb ar y cyd mewn nifer o

feysydd, ac nid yn rhywbeth y gellir ei drosglwyddo'n gyfan gwbl (ynghyd â'r risgiau cysylltiedig) i brif gontractwyr.

179. Rydym wedi defnyddio'r model hwn i allosod y costau adeiladu posibl (a nodir yn Nhabl 3.1). Mae hyn yn darparu amcangyfrif o'r gost ychwanegol resymol yn yr achos gwaethaf ar gyfer y sefydliadau hynny nad ydynt yn cynnwys metrigau a dangosyddion perfformiad allweddol cymdeithasol gyfrifol wrth reoli eu contractau adeiladu fel arfer. Ni fyddai'n rhaid i'r rhan fwyaf o gyrff wario'n agos at yr uchafswm hwn, oherwydd byddai nifer o'r agweddau ar y dull gweithredu hwn eisoes yn cael eu cyflawni'n fewnol.
180. Mae'r allosodiad hwn yn seiliedig ar gyfran y gwariant adeiladu yn ôl tystiolaeth yr Hysbysiadau Dyfarnu Contract a gyhoeddwyd ar GwerthwchiGymru, a gafodd ei thrawsosod ar wariant gwirioneddol yn ystod y blynyddoedd ariannol 2017-2019 a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan Atamis, dadansoddwr data gwariant trydydd parti.
181. Mae'r ffigurau adeiladu o GwerthwchiGymru yn cynnwys dyfarniadau cytundebau fframwaith, a fyddai'n cael eu gwario dros nifer o flynyddoedd wrth i brosiectau ddatblygu. Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan Atamis yn dangos mai £3.3bn oedd cyfanswm y gwariant adeiladu dros y tair blynedd ddiwethaf, gyda'r gwariant yn ystod 2018/19 ar ei phen ei hun yn £1,125,007,885, a bod tua 98.5% o hwnnw ar gontractau gwerth mwy na £2m.
182. Mae'r amcangyfrif o gostau hyn wedi'i nodi yn Nhabl 3.1.

### **Cod y Gweithlu Dwy Haen**

183. Mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig ag Adrodd am Eithriadau wrth ddefnyddio Cod y Gweithlu Dwy Haen. Ychydig iawn o achosion sydd bob blwyddyn o sefydliad sy'n ddarostyngedig i'r Cod Dwy Haen yn allanoli gwasanaeth, ac mae'r Cod yn cael ei weithredu yn yr amgylchiadau hyn fel arfer. Mae costau'r broses hon wedi'u cynnwys yn y darpariaethau Adrodd am Eithriadau a ddisgrifir uchod, ac yn y costau isod. Mae'n bosibl y byddai rhai costau cyflogaeth uwch yn gysylltiedig â monitro gweithrediad parhaus darpariaethau contract y Cod yn ofalus, ond gan fod y Cod hwn eisoes ar waith yng Nghymru, mae'n anodd amcangyfrif i ba raddau y bydd dargyfeiriad o'i ddarpariaethau.

**Tabl 3.1** – costau ychwanegol a ysgwyddir drwy gryfhau prosesau rheoli contractau ym maes adeiladu (costau blynyddol)

Sector	Amcangyfrif o'r gost flynyddol ar sail arferion da
Adeiladu	£5,625,000

DS ar sail y model a amlinellir uchod. Byddai'r costau gwirioneddol yn dibynnu'n bennaf ar ffactorau fel sut mae gwaith rheoli contractau'n cael ei asesu o ran ei risg a'i strwythuro ym mhob awdurdod contractio, y defnydd o fframweithiau presennol, capasiti a galluogrwydd staff, a yw'r gwaith rheoli contractau'n cael ei allanoli ac ati.

### **Gwasanaeth adborth newydd i gefnogi pwerau ymchwilio Gweinidogion Cymru**

184. Mae'n bosibl y bydd gwasanaeth adborth newydd o dan yr opsiwn hwn yn ei gwneud yn bosibl cynnal ymchwiliadau pan fydd awgrymiadau bod awdurdodau contractio wedi methu cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan y Bil drafft. Ar sail tystiolaeth o Wasanaeth Adolygu Caffael Cyhoeddus Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU, byddai llawer o'r cwynion a geir yn debygol o ganolbwyntio ar faterion talu; fodd bynnag, hyd yn oed os bydd llawer ohonynt, mae'r cwynion hyn yn cynrychioli lefel isel o amser staff. Mae'r rhan fwyaf o amser staff yn y Gwasanaeth Adolygu yn cael ei dreulio ar achosion mwy cymhleth, sy'n cael sylw gan ddau swyddog achos amser llawn sydd hefyd yn cynnal archwiliadau dirybudd; ffordd o sicrhau bod polisi caffael cyhoeddus yn cael ei ddilyn yn effeithiol.
185. Mae'r Gwasanaeth Adolygu hefyd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau o bryd i'w gilydd. Disgwylid y polisi yw y byddai'r gwasanaeth adborth yn gweithredu mewn ffordd debyg ac y byddai hefyd yn sicrhau y gellir cynnal ymyriadau polisi priodol pan fo angen. Byddai'r rôl hon yn gallu cael ei chyflawni gan y staff ychwanegol a nodir yn Nhabl 3.2. Byddai ei ganfyddiadau'n cael eu cyhoeddi drwy swyddogion cyfathrebu Llywodraeth Cymru a'i wefan ei hun, gan gynrychioli cost ychwanegol fach iawn. Mae rhai ymchwiliadau i gwynion ynghylch prosesau tendro eisoes yn cael eu cynnal gan swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru a byddai hyn yn parhau, gyda'r adnoddau ychwanegol a nodir yn Nhabl 3.2 yn gweithio ar gwynion ynghylch materion cadwyni cyflenwi a thalu sy'n codi o ganlyniad i wasanaeth newydd arfaethedig a sefydlir i gefnogi'r Bil drafft. Mae'n bosibl y bydd ymchwiliadau manylach i weithgareddau caffael mewn awdurdodau contractio penodol yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd, er enghraifft ar sail tystiolaeth sydd wedi cronni, ond disgwylir i'r rhain gael eu cynnwys yn yr adnoddau a restrir isod.

**Tabl 3.2** – costau ychwanegol ar gyfer staff ychwanegol i gefnogi gweithrediad Opsiwn 3 (costau blynyddol)

	£	£
<b>Gradd</b>	<b>Cost misol</b>	<b>Cost staff flynyddol</b>
SEO x 1	5,223	62,678
HEO x 1	4,055	48,655
<b>Cyfanswm Costau Staff</b>	<b>9,278</b>	<b>111,333</b>

### Costau i'r sector preifat

186. Byddai graddau effaith y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol o dan y Bil drafft ar fusnesau yn dibynnu ar gwmpas y contractau sy'n ddarostyngedig i'r Bil drafft. Yn ei ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, *Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol*, nododd Ffederasiwn Busnesau Bach – Cymru:

I'r graddau yr ydym yn gallu asesu ar sail yr hyn sydd wedi'i gyflwyno, nid ydym yn rhag-weld unrhyw gostau ychwanegol i fusnesau. Mewn egwyddor, os yw'r diwygiadau'n cael eu gweithredu mewn ffordd sy'n deall rôl busnesau bach a chanolig. Fodd bynnag, gallai fod costau cyfle o ran cyfoeth a chyflogaeth yn y gymuned leol os yw'r meini prawf yn rhy anhyblyg ac yn atal cwmnïau rhag cynyddu tuag at safonau uwch o ran materion fel gwaith teg.

187. Byddai cymorth ar gael drwy Busnes Cymru, rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru, i helpu busnesau i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol. Byddai'r staff a nodir o dan Dabl 3.2 yn gweithio gyda Busnes Cymru i sicrhau bod busnesau'n gallu lliniaru yn erbyn yr effeithiau posibl, gan gynyddu'r cyfleoedd i gyflawni amcanion partneriaeth gymdeithasol ar yr un pryd.
188. Mae rheoli contractau'n faes cost arall. Byddai'r costau y cyfeirir atynt uchod o dan Dabl 3.1 yn gallu cael eu rhannu rhwng cleientiaid a'r sector preifat, a byddai'r rhaniad yn amrywio rhwng pob sefydliad ar sail nifer fawr o ffactorau fel yr archwaeth rheoli risg, aeddfedrwydd y swyddogaeth fasnachol, yr adnoddau sydd ar gael, cyllidebau, a thelerau'r contract.
189. Byddai'n rhaid i awdurdodau contractio a'r sector preifat fabwysiadu dull gweithredu newydd ar gyfer archwilio ymddygiad cadwyni cyflenwi hefyd. Rydym yn gweithio gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant adeiladu i nodi sut

gellir bwrw ymlaen â hyn a lleihau'r costau a'r baich gweinyddol cymaint â phosibl. Gallai hwn fod yn faes lle mai caniatáu achrediad trydydd parti yw'r ateb gorau, fel y dull gweithredu sydd wedi ennill ei blwyf ym maes iechyd a diogelwch. Byddai hyn yn golygu costau suddedig ychwanegol mewn prosesau tendro a/neu gyflawni contractau, na ellir eu mesur ar hyn o bryd.

## Manteision

190. Byddai Opsiwn 3 yn cyflawni yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan fwy nag un ffynhonnell fel y disgrifir yn y ddogfen ymgynghori.
191. O ran unrhyw ganlyniadau polisi newydd sydd i'w cyflawni drwy gaffael cyhoeddus yn y dyfodol, byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno modd ar gyfer eu hasesu i'w cynnwys mewn canllawiau statudol. Mae llawer o'r polisiâu a fydd yn destun y canllawiau statudol eisoes wedi ennill eu plwyf ac felly efallai na fydd yr opsiwn hwn yn cynrychioli newid cyfeiriad sylweddol i ymarferwyr caffael cyhoeddus ond bydd meysydd i'w datblygu, yn enwedig o ran amcanion amgylcheddol a gwaith teg. Mae'n cynrychioli newid i symleiddio ymrwymadau presennol a chyflwyno proses ar gyfer ystyried cynnwys amcanion newydd yn y dyfodol yng nghyd-destun partneriaeth gymdeithasol.
192. Oherwydd yr angen a ragwelir am gynllunio caffael ymlaen llaw a sefydlu sail gyfreithiol dros fanteisio ar bŵer caffael cyhoeddus i gyflawni canlyniadau polisi, byddai hyn yn helpu i wneud caffael cyhoeddus yn swyddogaeth strategol, sef uchelgais a nodwyd gan ein rhanddeiliaid.
193. Byddai hyn yn rhoi rôl fwy cadarn i'r proffesiwn yn cyflawni polisiâu ac yn craffu, a hynny'n unol â'r adborth gan rhanddeiliaid ac argymhelliad penodol yn Adolygiad McClelland yn 2012, *Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru*<sup>52</sup> ar gyfer "dyletswydd orfodol i gyrff a ariennir fabwysiadu polisi caffael Llywodraeth Cymru [a] ddylai gynnwys cyflawni manteision ehangach yr effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol." Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei ailadrodd mewn nifer o adroddiadau mwy diweddar.
194. Byddai Opsiwn 3 yn rhoi rhagor o bŵer i gaffael er mwyn helpu i gyflawni yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, yr agenda datgarboneiddio, ac amcanion llesiant cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

---

<sup>52</sup>John McClelland, [Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru: Crynodeb Gweithredol \(2012\)](#)

195. Byddai manteision yn gysylltiedig â chanllawiau statudol, fel y nodir yn Opsiwn 2, hefyd yn codi.
196. Byddai'r dyletswyddau rheoli contractau arfaethedig yn cynrychioli'r tro cyntaf yn y DU i ddyletswyddau o'r fath gael sail statudol. Byddai hyn, mewn cyflwr sefydlog, yn lleihau rhai o'r risgiau a achosir gan ddiffyg tryloywder mewn cadwyni cyflenwi yn sylweddol. Byddai hefyd yn rhoi rhagor o allu i awdurdodau contractio ymchwilio i ymddygiad cadwyni cyflenwi.
197. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn rhoi sail statudol i God Ymarfer (Dwy Haen) y Gweithlu am y tro cyntaf, a fyddai'n sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau contractio gydymffurfio â'r dyletswyddau o dan y Bil er mwyn cyflawni gwaith teg, a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag anghydfodau diwydiannol a heriau cyfreithiol.
198. Byddai canlyniadau seiliedig ar ddata sy'n deillio o'r broses adrodd flynyddol a'r gwasanaeth adborth newydd yn darparu tystiolaeth o allu caffael cyhoeddus i sicrhau manteision real a diriaethol i ddinasyddion ac economi Cymru, ac yn darparu llinell sylfaen werthfawr ar gyfer asesu'r dirwedd caffael cyhoeddus yng Nghymru.
199. Er enghraifft, rhai o ddisgwyliadau rhesymol caffael cymdeithasol gyfrifol fyddai cynnydd yn y gwariant gyda busnesau bach a chanolig yng Nghymru, llai o allyriadau drwy weithgareddau cadwyni cyflenwi, a chyflawni rhagor o ganlyniadau gwerth cyhoeddus drwy weithgareddau masnachol.
200. Gellid defnyddio'r adroddiad blynyddol arfaethedig, i'w baratoi gan Weinidogion Cymru, i sefydlu ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer gwelliant parhaus caffael cyhoeddus yng Nghymru. Byddai'r rhain yn cael eu defnyddio i bennu meysydd ymyriadau polisi y gellid eu cynnig gan Lywodraeth Cymru a'u goruchwyllo gan Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol. Yn ogystal â darparu meysydd i'w datblygu yn y tymor byr mewn awdurdodau contractio unigol, gallai'r rhain ddarparu sail dystiolaethol ar gyfer datblygu blaenoriaethau polisi tymor hir i'w cyflawni gan Lywodraeth Cymru.
201. Yn yr un modd, byddai archwiliadau dirybudd a gynhelir gan y gwasanaeth adborth newydd yn helpu i sicrhau bod polisiau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn sbarduno ymyriadau priodol hefyd.



## Crynodeb o'r costau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf)

<b>215.</b>	
<b>Pontio</b>	<b>£</b>
Tabl 2.2	82,000
Tabl 2.5	80,100
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>162,100</b>
<b>Blynyddol</b>	
Tabl 2.1	215,800
Tabl 2.3	119,600
Tabl 3.1	5,625,000
Tabl 3.2	111,300
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>6,071,700</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>6,233,800</b>

202. **Felly, yr amcangyfrif o'r gost gweithredu ar gyfer yr opsiwn hwn yw £162,100, a'r amcangyfrif o'r gost flynyddol yw £6,071,700.**

## CRYNODEB O'R OPSIWN A FFEFRIR

203. Opsiwn 3 sy'n sicrhau'r mwyaf o fanteision ac mae'n cynnwys mecanweithiau ar gyfer mesur canlyniadau ac adrodd arnynt, ac ar gyfer ysgogi cydymffurfedd. Gan fod Opsiwn 3 yn cynnwys Opsiwn 2, mae hefyd yn elwa ar yr un arbedion effeithlonrwydd o'i gymharu ag Opsiwn 1 yn gyffredinol, a hynny o ganlyniad i'r potensial ar gyfer symleiddio ymrwymadau sy'n bodoli eisoes a lleihau'r gorgyffwrdd. Mae costau Llywodraeth Cymru ar gyfer Opsiwn 2 wedi'u cynnwys i rannau helaeth yng nghynlluniau cyllideb presennol Cyfarwyddiaeth Masnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru, gyda chost ychwanegol o tua £36,000 yn cael ei ysgwyddo gan gyrff cyhoeddus drwy effeithiau canlyniadol gwaith ychwanegol. Fodd bynnag, dylid nodi y byddai cyd-drefnu'r cylch adrodd a gwybodaeth â'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gallu lleihau'r ffigur hwn. Mae Opsiwn 1 yn cadw'r lefel bresennol o ymgysylltiad polisi ond yn colli cyfle sylweddol i roi sail statudol i'r newidiadau angenrheidiol, i ddarparu cydlyniant go iawn rhwng meysydd polisi sy'n perthyn yn agos, ac i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

204. Byddai'r rhan fwyaf o'r baich gweinyddol ychwanegol i awdurdodau contractio ac unrhyw gostau cysylltiedig yn codi drwy ddilyn arferion da, y mae llawer ohonynt eisoes wedi'u nodi yn y canllawiau, ac ymgymryd â diwydrwydd dyladwy sy'n gysylltiedig ag arferion busnes moesegol. Bydd hyn yn arbennig o wir pan fydd y canllawiau statudol wedi'u sefydlu. Mae'n anodd asesu i ba raddau nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, ac felly mae'n anodd cyfrifo'r costau ychwanegol posibl.
205. Byddai'r canllawiau statudol sy'n deillio o'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol a phob mecanwaith cymorth polisi sydd ar gael yn cyfrannu cymaint â phosibl at leihau llwyth gwaith a dyblygiad i fusnesau, ac i fusnesau bach a chanolig yn enwedig.
206. Byddai Opsiwn 3 yn hybu cydymffurfedd â'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol drwy graffu ar unrhyw sefydliadau sy'n methu cydymffurfio â'r strategaeth caffael gyffredinol a'r dyletswyddau adrodd dro ar ôl tro, a drwy ddatgelu'r sefydliadau hyn yn gyhoeddus yn y pen draw, ac adrodd am eithriadau mewn cysylltiad ag achosion lle nad yw sefydliadau'n cynnwys cymalau cymdeithasol gyfrifol mewn contractau, neu'n peidio â rheoli cadwyni cyflenwi a chontractau'n ddigonol.

### Asesu'r Gystadleuaeth

207. Ar hyn o bryd, mae cyfraith caffael y DU yn deillio'n bennaf o drosi Cyfarwyddbau'r UE. Yng nghyd-destun Cymru, mae Datganiad Polisi Caffael Cymru<sup>53</sup> yn sail i'r dirwedd caffael hefyd. Mae'r Datganiad yn darparu fframwaith arferion da a chanllawiau sydd wedi'u hanelu at y canlynol (ymysg pethau eraill):
- Cynyddu gwerth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol caffael
  - Hybu'r cyflawniad o Fanteision Cymunedol drwy gaffael
  - Darparu cystadleuaeth agored a hygyrch
  - Cynhyrchu prosesau syml a safonol
  - Annog cyflenwyr i ymgysylltu ac i arloesi.
208. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru wrthi'n cael ei adnewyddu i adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd presennol. Bydd y fersiwn newydd yn seiliedig ar y polisiâu blaenoriaethol a nodir yn y ddogfen hon; fodd bynnag mae'n debygol y bydd yr elfennau uchod, sy'n bodoli eisoes, yn aros. Yn ogystal â chefnogi'r nodau hyn, mae'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn y Bil drafft wedi'i dylunio i fanteisio ar bŵer gweithgareddau masnachol yng Nghymru i gefnogi datblygiad

---

<sup>53</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/datganiad-polisi-caffael-cymru-2021.pdf>

- economaidd cenedlaethol a lleol, i symleiddio profiad y sector preifat o ddelio â chaffael cyhoeddus, ac i gefnogi busnesau bach.
209. Nid yw'r Bil drafft yn newid yr egwyddor bwysig o gystadleuaeth agored, dryloyw a hygyrch sy'n sail i dirwedd caffael cyhoeddus Cymru. Mae gofal wedi'i gymryd i sicrhau dull gweithredu na fydd yn effeithio'n anghymesur ar fusnesau bach. Byddai mabwysiadu'r opsiwn a ffefrir yn cryfhau arferion da caffael cyhoeddus, yn lleihau biwrocratiaeth a dyblygu yn y broses caffael, ac yn cynyddu tryloywder a symlrwydd, a ddylai ei gwneud yn haws i gyflenwyr gystadlu. Os unrhyw beth, byddai'r mesurau yn y Bil drafft yn helpu cwmnïau yng Nghymru i fod yn fwy cystadleuol. Ni fyddai'r Bil drafft hwn yn newid y rheoliadau sy'n rheoli prosesau caffael eu hunain, sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016, a Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016.

### **Materion trawsffiniol**

210. Nid yw'r materion trawsffiniol yn debygol o fod yn arwyddocaol oherwydd byddai'r un gofynion ar bob un sy'n cynnig, dim ots ble mae wedi'i leoli. Ar gyfer busnesau mwy neu'r rhai sy'n gweithredu ar draws ffiniau, mae'n bosibl y bydd gofynion gwahanol yn cael eu gosod arnynt gan awdurdodau contractio sy'n ddarostyngedig i ofynion y Bil drafft o'u cymharu â'r rhai nad ydynt, er enghraifft, ond mae hynny'n wir nawr. Ar wahân i achosion lle mae llawer mwy o ddiwydrwydd dyladwy yn berthnasol i dryloywder cadwyni cyflenwi a chynnal safonau prosesau caffael cymdeithasol gyfrifol, ni ddylai hyn arwain at oblygiadau cost sylweddol i fusnesau yn gyffredinol, a byddai gan fusnesau ddewis o ran derbyn y gofynion a chystadlu am gontract ai peidio. Er y byddai cyflwyno prosesau newydd i sicrhau llif cymalau contractau am i lawr, rhagor o ddiwydrwydd dyladwy a threfniadau rheoli contractau mwy cadarn yn arwain at faich gweinyddol a chost i ryw raddau yn y tymor byr, yn y tymor canolig i hir mae'n bosibl y bydd y rhain yn helpu i wneud cwmnïau yng Nghymru yn fwy cystadleuol wrth gynnig am gontractau cyhoeddus yng Nghymru a'r DU oherwydd y byddant yn elwa systemau rheoli mewnol y busnesau eu hunain o bosibl.

### **Diffiniad 'contractau rhagnodedig' yn y Bil drafft**

211. Mae ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i ddiffiniad 'contractau rhagnodedig' ar gyfer caffael cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i delerau'r Bil drafft arfaethedig yng nghyd-destun Cymru. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw drothwyon a osodir yn gymesur, oherwydd byddai gan awdurdodau contractio lai o reolaeth dros gontractau islaw lefel benodol, a llai o wybodaeth reoli amdanynt. Hefyd, mae'n anghymesur gofyn am gynnal asesiadau manwl o werth cymdeithasol ar gyfer contractau lefel isel lle byddai'r baich gweinyddol yn drech na'r manteision posibl. Yn ogystal â hynny, os yw'r trothwyon yn cael eu gosod yn rhy isel, mae'n bosibl y bydd rhaid i awdurdodau ofyn i fusnesau bach a chanolig ymateb i ymarferion tendro sy'n anghymesur o lafurus a drud, a chyflawni canlyniadau afrealistig. Ar hyn o bryd mae busnesau bach a chanolig yng

Nghymru yn ennill tua 52% o wariant contractau cyhoeddus ac yn cynrychioli rhan enfawr o economi Cymru (gan gyfrif am 62.4% o gyflogaeth a 99.4% o'r holl fusnesau yng Nghymru yn 2019<sup>54</sup>), gyda micro fusnesau (busnesau â naw cyflogai neu lai) yn cyfrif am 33.4% o gyflogaeth ar eu pen eu hunain.

212. Os bydd adolygiadau ôl-weithredu yn y dyfodol yn dangos naill ai bod cyfleoedd yn cael eu colli neu fod effaith anghymesur ar fusnesau bach a chanolig neu sectorau penodol o ganlyniad i'r trothwyon a osodir yn y Bil drafft a'r rheoliadau cysylltiedig, mae darpariaeth wedi'i gwneud i Weinidogion Cymru addasu'r rhain yn unol â hynny.
213. Mae 'caffael rhagnodedig' yn cael ei ddiffinio yn y Bil fel contractau adeiladu mawr â gwerth amcangyfrifol o dros £2m, contractau allanoli gwasanaeth ac "unrhyw gcontract arall o'r disgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau". Er mwyn symleiddio'r gofynion ar awdurdod contractio sy'n ddarostyngedig i delerau'r Bil, bwriad y polisi yw bod y trothwyon a osodir yn y Bil, a'r rhai a fydd yn cael eu sefydlu mewn rheoliadau dilynol, yn hawdd eu gweithredu a/neu eisoes yn gyfarwydd i'r sefydliadau dan sylw.
214. Mae'r trothwyon o dan y rheoliadau caffael cyfredol yn amrywio yn ôl y mathau o awdurdod contractio a sectorau marchnadoedd. Maent yn cael eu diweddarau bob dwy flynedd (bydd y diweddariad nesaf ym mis Ionawr 2022). Ym mis Ionawr 2020, dyma'r trothwyon mwyaf perthnasol o dan y gwahanol reoliadau (mae'r ffigurau hyn wedi cael eu talgrynnu i dri ffigur):

<b>Math o Awdurdod Contractio</b>	<b>Trothwy ar gyfer Contractau Cyflenwadau neu Wasanaethau</b>	<b>Trothwy ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Eraill (y drefn llai manwl)</b>	<b>Trothwy ar gyfer Contractau Gwaith a Chontractau Consesiwn</b>
Cyrff Llywodraeth Ganolog	£123k	£664k	£4.73m
Sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus (fel llywodraeth leol)	£189k	£664k	£4.73m

<sup>54</sup> <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/size-analysis-active-businesses-2019-503.pdf>

Cyfleustodau	£379k	£885k	£4.73m

215. Cynnig y polisi yw, ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, ein bod yn gweithredu lefel o £122,976 ym mhob sector yn y lle cyntaf.
216. Y bwriad yw cadw'r lefelau sy'n diffinio 'caffael rhagnodedig' yn y Bil drafft a'r rheoliadau mor syml â phosibl, a'u cysylltu â'r trothwyon cysylltiedig â chaffael sy'n cael eu defnyddio eisoes. Ar gyfer contractau adeiladu, mae'r trothwy £2m wedi cael ei gynnwys yn y Bil drafft, yr un fath â'r hyn sydd wedi'i nodi yn neddfwriaeth yr Alban, a hynny o ganlyniad i bwysigrwydd rhoi sylw i gaffael cymdeithasol gyfrifol yn y sector hwn. Mae angen i'n penderfyniad ar drothwyon adlewyrchu sut mae cyrff cyhoeddus yn trefnu eu gweithgareddau caffael, ac yn sicrhau effaith gymesur arnyn nhw ac ar gwmnïau.
217. Mae'r tabl canlynol yn edrych ar gyfanswm y gwariant yng Nghymru mewn bandiau gwerth contractau. Mae'n defnyddio data a ddarparwyd gan GwerthwchiGymru i ddadansoddi gwerth hysbysebion contract – gwerth isel (<£50k) a gwerth uchel (dros £122,976 ar gyfer gwasanaethau a dros £2m ar gyfer gwaith) o fis Ionawr 2019 i fis Chwefror 2020. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dyfarniadau contract a wnaed gan bob corff gan ddefnyddio GwerthwchiGymru, nid dim ond y rhai y mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol iddynt. Maent yn cynrychioli y gwerthoedd uchaf posibl disgwylidig, byddant hefyd yn cynnwys cytundebau fframwaith dros nifer o flynyddoedd, a gallant hefyd gynnwys contractau a gyflawnir y tu allan i Gymru sy'n cael eu hysbysebu ar GwerthwchiGymru er mwyn creu cystadleuaeth. Felly, mae disgwyl i'r ffigurau yma fod yn uwch na'r gwariant blynyddol yng Nghymru.
218. Mae'r dadansoddiad yn cael ei wneud yn y tabl isod i ddangos y contractau dros £50,000 hyd at £122,976 (trothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU)) ar gyfer gwasanaethau a chyflenwadau, a dros £2m hyd at £4.7m (trothwy OJEU) ar gyfer gwaith er mwyn cymharu effaith y ddeddfwriaeth yn yr Alban, lle mae'r trothwy ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn £50,000, sef yr hyn sydd wedi'i gynllunio yn y Bil drafft hwn.

## Hysbysiadau Dyfarnu Contract, blwyddyn ariannol 2019/20

Math o hysbysiad	Cyfanswm y contractau a gyhoeddwyd ar GwerthwchiGymru	Cyfanswm gwerth yr hysbysiadau hyn
Hysbysiadau Dyfarnu OJEU, Gwasanaethau a Chyflenwadau (dros £122,976)	538	£5,511,907,891
Hysbysiadau Dyfarnu rhwng £50,000 a £122,976, Gwasanaethau a Chyflenwadau	293	£23,361,020
Hysbysiadau Dyfarnu OJEU, Gwaith (dros £2m)	72	£8,183,905,638
Hysbysiadau Dyfarnu rhwng £2m a £4,733,252, Gwaith*	30	£98,014,914
Hysbysiadau Dyfarnu o dan £2m, Gwaith	692	£125,682,976

\*Mae'r contractau hyn eisoes wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer contractau gwaith >£2m ac felly maent wedi'u heithrio o'r ffigurau isod er mwyn osgoi eu cyfrif ddwywaith.

DS Nid yw pob contract gwerth is yn cael ei hysbysebu ar GwerthwchiGymru, fodd bynnag y dybiaeth resymol yw bod y rhan fwyaf o gontractau dros £50,000 yn cael eu hysbysebu ar y wefan.

219. Mae'r tabl hwn yn dangos rhaniad (yn ôl gwerth) bras o 0.5%/99.5% rhwng cyfleoedd gwerth is a dros OJEU i gontractau gwasanaethau a chyflenwadau, a rhaniad bras o 1.5%/98.5% rhwng contractau gwaith gwerth is (<£2m) a gwerth uwch (>£2m).
220. Pe bai'r patrwm hwn yn cael ei ailadrodd i ddyfarniadau contract drwy GwerthwchiGymru a'r tu allan iddo, byddai gweithredu ein trothwyon arfaethedig yn dal dros 98% o werth contractau ar gyfer contractau gwaith a chontractau gwasanaethau a chyflenwadau. Mae hyn yn golygu y gallai'r trothwyon hyn ddarparu pŵer sylweddol heb osod baich anghymesur ar gontractau llai, cyrff cyhoeddus llai a busnesau bach. Hyd yn oed wrth ganiatáu ar gyfer lwfans ansicrwydd (10-20%), mae'n rhesymol tybio y byddai hyn yn wir.

## Cyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael

221. I gynnal cysondeb â deddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth yn y dyfodol mewn cysylltiad â chaffael, rydym yn cynnig y byddai'r holl awdurdodau contractio yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 o fewn cwrdd y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn y Bil drafft, heblaw am rai sefydliadau bach iawn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r holl gyrff gyflawni gweithgareddau i'r un lefel o fanylder. Bydd disgwyliadau is ar y rhai nad ydynt yn cyflawni gweithgareddau caffael dros y trothwyon. =
222. Mae'n bwysig nodi hefyd bod y Canllawiau a'r Cyfarwyddiadau yng Nghod y Gweithlu Dwy Haen yn berthnasol i restr wahanol o sefydliadau ar hyn o bryd.
223. Mae'r sefydliadau y mae'r Cod Dwy Haen yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd ac a fydd yn dal yn destun ei ddisgwyliadau presennol wedi'u nodi yn y Cylchlythyr: Y Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu 2014, fel:
- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
  - cynghorau cymuned
  - awdurdodau Parciau Cenedlaethol
  - awdurdodau tân ac achub
  - Byrddau Iechyd Lleol
  - ymddiriedolaethau'r GIG
  - cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir
  - Cyngor Celfyddydau Cymru
  - Cyngor Gofal Cymru
  - Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
  - Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
  - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
  - Amgueddfa Cymru
  - Corff Adnoddau Naturiol Cymru
  - Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
  - Cyngor Chwaraeon Cymru.
224. Sefydlwyd y rhestr hon yn 2014 pan gyhoeddwyd y Cod Dwy Haen, ac nid yw wedi cael ailolwg systematig wrth ddatblygu'r Bil drafft hwn. Er hynny, mae rhai sefydliadau nad oeddent wedi'u cynnwys yn y rhestr uchod wedi'u cynnwys yn y darpariaethau ar gymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y Bil hwn. Sef Trafnidiaeth Cymru, Gofal Iechyd Digidol Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru. Mae eraill nad oeddent wedi'u cynnwys yn y rhestr uchod heb eu cynnwys yn y darpariaethau ar gymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y Bil drafft hwn. Sef: Cynghorau Cymuned, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Dylid nodi, nes bod y Cod Dwy Haen

yn cael ei ailgyhoeddi, bydd y cyrff hyn yn dal wedi'u cynnwys yn y gofynion presennol mewn cysylltiad â'r Cod.

225. Mae'r tabl canlynol yn dangos y cyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael y manylir arnynt yn yr adran hon, yn ogystal â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Mae rhestr hirach o gyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael na'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Y rheswm am hyn yw bod mwy o gyrff cyhoeddus yn cyflawni gweithgareddau caffael sylweddol nag sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.



## Manteision y dull gweithredu hwn

- Cyraeddadwy – byddai Llywodraeth Cymru yn gallu cefnogi opsiwn 3 yn ymarferol.
- Cymesuredd – mae adrodd a strategaethau caffael yn weithgareddau blynyddol neu untro, felly unwaith mae'r cylch cyntaf wedi'i gyflawni nid yw'n ofyniad llafurus iawn. Byddai'r gwaith adrodd hefyd yn canolbwyntio ar dendrau gwerth uwch, a fyddai'n lleihau'r llwyth gwaith i gyrff llai yn enwedig.
- Perthnasedd – byddai canllawiau statudol yn helpu i sicrhau bod y polisiau'n cael eu gweithredu lle bo'n berthnasol.
- Cysondeb â deddfwriaeth caffael gyfredol a deddfwriaeth yn y dyfodol o bosibl. Hefyd, gan fod y gyrff hyn eisoes yn ddarostyngedig i deddfwriaeth caffael gyfredol, dylai fod rhywfaint o gapasiti a galluogrwydd caffael yn bodoli'n fewnol yn barod.
- Yn fwy cyson â phrofiadau sector cyhoeddus Cymru o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru hyd yma, er enghraifft wrth adrodd ar y Manteision Cymunedol.
- Yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gwariant "y gellir dylanwadu arno", ond nid y contractau isaf eu gwerth.

## Anfanteision

- Nid yw hyn yn cynnwys yr holl wariant caffael cyhoeddus yng Nghymru,
- Nid yw hyn yn perthyn yn thematig i ddyletswyddau eraill yn y Bil drafft a gallai arwain at orgyffwrdd wrth adrodd. Rhaid rhoi sylw i hyn yn y canllawiau adrodd.

226. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael y manylir arnynt yn yr adran hon, yn ogystal â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a nodir yn adran 5 o'r ddogfen ymgynghori hon. Mae rhestr hirach o gyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael na'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Y rheswm am hyn yw bod mwy o gyrff

cyhoeddus yn cyflawni gweithgareddau caffael sylweddol nag sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.

227. Bydd y ddyletswydd drosfwaol ar gyfer caffael cymdeithasol gyfrifol, y ddyletswydd rheoli contractau ar gyfer contractau adeiladu mawr, a'r darpariaethau cysylltiedig â gwella a chydymffurfio yn berthnasol i sefydliadau sy'n awdurdodau contractio yng Nghymru â gwariant caffael sylweddol, ac sydd felly'n dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth gaffael bresennol. Bwriad y polisi yw cynnwys cymesuredd yn y disgwyliadau a'r canllawiau i sicrhau nad yw sefydliadau bach yn cael eu llethu'n ormodol gan y cynigion hyn. Mae'r ddyletswydd ar gymalau gweithlu cymdeithasol y cyhoedd (trefniadau newydd ar gyfer cymhwyso Cod Ymarfer y Gweithlu (Dwy Haen)) yn berthnasol i restr lai o gyrff. Y rheswm am hyn yw nad yw'r rhestr wedi newid llawer o'r rhestr o gyrff y mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw cynghorau cymuned, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, sydd ar hyn o bryd o fewn cwmpas y Cod presennol, wedi'u cynnwys. Byddant yn dal yn ddarostyngedig i'r rheoliadau presennol, a fydd yn aros yn eu lle hyd nes y bydd unrhyw ddiweddariadau.

## Atodiad 1

Corff	Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol	Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol	Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (“Cod Dwy Haen”)
Cyngor Celfyddydau Cymru	✓	✓	✓
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	✓	✓	✓
Awdurdod Lleol	✓	✓	✓
Bwrdd Iechyd Lleol	✓	✓	✓
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	✓	✓	✓
Amgueddfa Cymru	✓	✓	✓
Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru	✓	✓	✓

Corff Adnoddau Naturiol Cymru	✓	✓	✓
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	✓	✓	✓
Cyngor Chwaraeon Cymru	✓	✓	✓
Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Felindre	✓	✓	✓
Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru	✓	✓	✓
Gweinidogion Cymru	✓	✓	✓
Trafnidiaeth Cymru	✓	✓	✓
Awdurdod Cyllid Cymru	✓	✓	✓
Gofal Iechyd Digidol Cymru	✓	✓	✓
<b>Corff</b>	<b>Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol</b>	<b>Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol</b>	<b>Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (“Cod Dwy Haen”)</b>

Comisiynydd Plant Cymru	X	✓	X
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	X	✓	X
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	X	✓	X
Corff llywodraethu ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru	X	✓	X
Corff llywodraethu ar gyfer sefydliad addysg uwch yng Nghymru	X	✓	X
Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig	X	✓	X
Comisiwn y Senedd	X	✓	X
Comisiynydd y Gymraeg	X	✓	X
<b>Corff</b>	<b>Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol</b>	<b>Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol</b>	<b>Cymalau gweithlu cyhoeddus</b>

			cymdeithasol (“Cod Dwy Haen”)
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	X	✓	✓
Gofal Cymdeithasol Cymru	X	✓	✓
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	X	✓	✓